



ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON ANNUAL REPORT AND ACCOUNTS

2019/2020

Cymeradwywyd gan Bwrdd Llwodraethwyr ar 1 Rhagfyr 2020

RHEOLWYR ALLWEDDOL, BWRDD LLYWODRAETHWYR A CHYNGHORWYR PROFFESIYNOL

Diffinnir Rheolwyr Allweddol fel aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli (SLT) ac fe'u cynrychiolwyd fel a ganlyn yn 2019/20:



Ceir rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalen 29 o'r datganiadau ariannol hyn; gweithredodd Mrs Marie Carter fel Swyddog Llywodraethiant drwy gydol y cyfnod.

Dyma gynghorwyr proffesiynol a bancwyr y Coleg ar gyfer y cyfnod:



CYNNWYS

EITEM	TUDALEN
Adolygiad o 2019/20	1
Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Coleg ag amodau a thelerau cyllido gan Lywodraeth Cymru.	26
Datganiad ar Lywodraethiant Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	27
Datganiad ar Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	36
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	38
Adroddiad ar Incwm Cynhwysfawr	41
Datganiad ar Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn	42
Mantolenni ar 31 Gorffennaf 2020	43
Datganiad o Lif Arian	44
Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol	45

ADOLYGIAD O 2019/20

Fe gofir am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2020 fel un lle cawsom ein llethu gan Covid-19. Ar 11 Mawrth 2020, cyhoeddwyd Covid-19 fel pandemig byd-eang ac ar 23 Mawrth 2020 caeodd y Coleg pob campws gan symud y gwaith addysgu a dysgu a'r swyddogaethau cefnogol fel ymarfer i'w wneud o bell. Yn ystod y misoedd ers i'r cyfnod clo ddechrau, rydym wedi gweld ein staff yn gweithio'n ddiflino i gynnal gwasanaethau i'n dysgwyr ac mae'r ymdrech tîm a gwytnwch pawb wedi disgleirio. Yn erbyn y cyd-destun unigryw, mae aelodau o'n Corff Llywodraethu yn falch o allu cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen 31 Gorffennaf 2020. Paratwir y datganiadau ariannol yn unol â Safon Adrodd Ariannol (FRS) 102.

EIN STATWS CYFREITHIOL


Sefydlwyd y Gorfforaeth dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, at ddibenion cynnal busnes Coleg Trydyddol Gwent. Mae Coleg Gwent yn cael ei ystyried yn elusen a eithrir at ddibenion Deddf Elusennau 2011.

Ymgorfforwyd y Gorfforaeth fel Coleg Trydyddol Gwent. Ar 1 Ionawr 2000, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd i'r Gorfforaeth newid enw'r Coleg i Coleg Gwent, sef enw yr ystyriwyd iddo gynnig gwell cynrychiolaeth o'r ystod eang o ddarpariaeth a gynigir gan y Coleg.

Mae'r datganiadau ariannol a archwiliwyd yn cynnwys Grŵp Coleg Gwent sydd, yn ogystal â Coleg Gwent yn ymgorffori Coleg Gwent Training Ltd a ddechreuodd fasnachu ar 1 Awst 2017 ond gorffennodd wneud hynny ar 31 Gorffennaf 2019.

ADOLYGIAD STRATEGOL

Gosodir ein cyfeiriad strategol yn Gweledigaeth, Cenhadaeth a Blaenoriaethau Strategol a gefnogir gan amryw o amcanion strategol.



Gyrrir y cyfeiriad strategol a osodir gan y Gorfforaeth gan anghenion ein dysgwyr.

Fel pob sefydliad arall, mae'r Coleg wedi newid ei ffordd o weithio yn ystod yr argyfwng Covid-19. Gorfodwyd rhai newidiadau arnom ond bu eraill, yn enwedig yn y maes digidol, yn sbardun dramatig o arloesedd strategol a gynlluniwyd. Rydym wedi tywys ein staff a'n dysgwyr i mewn i fyd o ddarpariaeth cwrs ar-lein, cyfarfodydd rhithwir a chyfuniad o weithio gartref a gweithio o'r swyddfa er mwyn cynnal ein dyletswyddau. Bu hyn yn addasiad sylweddol i bawb ac er y bu sawl elfen a brofwyd yn gam negyddol, cafwyd llawer o ganlyniadau cadarnhaol hefyd.

Dros y misoedd diweddar, gweithredodd ein Coleg mewn ffyrdd cwbl newydd. Rhan fach o hynny yw gweithio o bell. Dysgu cyfunol gwirioneddol, mwy o awdurdod a ddirprwywyd, penderfyniadau cyflymach, cyfathrebu digidol mwy effeithiol a rheolaidd i staff a dysgwyr wrth iddynt hefyd groesawu technoleg newydd. Bu nifer sylweddol o newidiadau a bydd llawer o'r rhain yn dod yn rhan barhaol o'r gweithle ac yn ein helpu i gyflymu nifer o ddyheadau strategol sy'n bodoli eisoes. Er bod y pandemig wedi ein gadael yn teimlo bod strategaeth wedi'i gadael ar ôl wrth i ni frwydro'n ddyddiol yn erbyn Covid-19, mewn gwirionedd mae ein blaenoriaethau strategol wedi parhau i arwain ein gweithredoedd. Mae gennym nawr gymaint mwy o brofiad a mewnwleidiad i dynnu arnynt wrth osod cyfeiriad strategol newydd ar ôl Covid-19 yn ogystal â blaenoriaethau newydd. Mae'r newidiadau strwythurol a wnaed gennym dros y blynyddoedd diwethaf i fodloni anghenion ein strategaethau Technoleg Addysgu a Dysgu, ynghyd â chyflwyno strwythur cyfadrann newydd yn ddiweddar, wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'n gallu i reoli'r argyfwng hwn ac mae'r modd yr ymatebodd ein staff i'r argyfwng yn rhoi hyder i ni y gallwn ddod allan o'r cyfan fel Coleg cryfach gan wynebu heriau'r 'normal newydd'

Budd y Cyhoedd


Mae'r Coleg yn elusen eithriedig ac yn cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru fel y Prif Reoleiddiwr ar gyfer pob Corfforaeth Addysg Bellach yng Nghymru. Mae aelodau'r Gorfforaeth, sy'n ymddiriedolwyr o'r elusen, yn cael eu rhestru ar dudalen 29. Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Gorfforaeth yn parchu canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn enwedig ei ganllawiau ar gynnydd mewn addysg. Mae'r canllawiau hyn yn gosod y gofyniad bod yn rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos yn amlwg, bod ei nodau er budd y cyhoedd. Wrth yrru ei genhadaeth, mae'r Coleg yn cynnig y buddion cyhoeddus adnabyddedig canlynol drwy ei waith wrth yrru cynnydd mewn addysg:-

- Addysgu a dysgu o safon uchel
- Ymestyn y cyfranogiad a threchu amddifadedd ac allgau cymdeithasol
- Systemau cryf i gefnogi myfyrwyr
- Cysylltiadau da gyda chyflogwyr

Mae darpariaeth y Gorfforaeth o'r budd cyhoeddus wedi ei amlygu'n barhaus drwy'r adroddiad hwn a thrwy'r gwaith o gyflawni amcanion allweddol a dangosyddion perfformiad y Coleg.

At ddibenion monitro perfformiad blynyddol, mae gan y Coleg amryw o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) sy'n cefnogi'r blaenoriaethau ac amcanion strategol, a gellir eu crynhoi fel KPIs perfformiad y dysgwr, staff ac ariannol.

Er yr heriau a wynebwyd yn ail hanner y flwyddyn, roedd perfformiad y Coleg yn erbyn ei KPIs ar gyfer 2019/20 yn gryf:



Dyma'r meysydd allweddol:

- Mae ein cyfraddau presenoldeb a llwyddiant yn parhau i berfformio'n uwch na'r targed, ac er y dryswch ynghylch graddio ac asesu llwyddodd ein dysgwyr i gymhwyso ar gyfradd uwch na'r llynedd.
- Cadw Dysgwyr - roedd y gyfradd gyffredinol o gadw'n dysgwyr ar gyfer ein dysgwyr llawn amser yn 89% yn erbyn targed o 92% Roedd hyn yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.
- Effeithiwyd ar gyrhaeddiad fframwaith llawn prentis yn sylweddol gan Covid-19 gyda llawer o brentisiaid yn cael eu rhoi ar ffyrlo gan fethu â pharhau ar y rhaglen.
- Mae absenoldeb staff yn faes lle mae angen gwelliant a chanolbwyntir ar hyn yn 2020/21.
- Roedd perfformiad ariannol yn rhagorol gyda'r KPIs Ariannol yn llawer uwch na'r targed ar wahân i un maes.

Mae'r drafodaeth ar dudalennau 7 i 21 yn rhoi rhagor o fanylder ynghylch ein perfformiad yn erbyn ein targedau KPIs a ddadansoddir o fewn y tri maes allweddol canlynol:




EIN PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn adlewyrchu canlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020.

Dylid nodi, er i'r Coleg barhau yn rhan o strwythur Grŵp drwy gydol 2019/20, ni fu unrhyw weithgaredd o fewn yr is-gwmnïau yn ystod y cyfnod hwn. Mae dau o'n his-gwmnïau, Coleg Gwent Catering Ltd a Coleg Gwent Enterprises Ltd yn parhau'n anweithredol ac rydym yn y broses o ddirwyn Coleg Gwent Training Ltd i ben. Trafodir perfformiad ariannol y flwyddyn felly, yng nghyd-destun y Coleg yn unig drwy gydol yr adroddiad.

Mewn blwyddyn lle y bydd sefydliadau sydd â blwyddyn ariannol sy'n dod i ben y tu hwnt i fis Mawrth 2020, wedi teimlo effaith ddifrifol Covid-19, mae perfformiad y Coleg yn erbyn ei KPIs ariannol ar gyfer 2019/20 wedi parhau'n gryf iawn gyda gwarged gweithredol llawer uwch na'r targed, a'r KPIs ariannol eraill i gyd yn agos neu'n rhagori ar y targed:



Ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2020, adroddodd cyfrifon rheoli mewnol y Coleg **warged gweithredol o £4,319k**. Rhoddir cysoniad o'r sefyllfa hon i'r Datganiad o Incwm Cyfansawdd (tudalen 41) yn y tabl ar y dudalen nesaf

	Gwirioneddol 2019/20 £k	Gwirioneddol 2018/19 £k
Gwarged gweithredol cyn costau pensiwn heb fod yn arian parod ac eitemau eithriadol	4,319	2,085
Llai Costau pensiwn eraill heb fod yn arian parod	(3,307)	(2,624)
Ychwanegu yn ôl Dileu benthygiad is-gwmni (yn cael ei drin fel aneithriadol yn y Cyfrifon Rheoli)	122	-
Gwarged gweithredol/(diffyg) cyn eitemau eithriadol	1,134	(539)
Dibrisiant carlam campws Pont-y-Pŵl	(1,059)	(1,598)
Rhyddhau DCG campws Pont-y-Pŵl	437	678
Costau ail-strwythuro staff	(63)	(1,194)
Elw ar waredu asedau	10	27
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	459	(2,626)
Colled actiwaraid mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	(13,100)	(9,520)
Lleihad mewn asedau gwaddol	-	(1)
Cyfanswm Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn	(12,641)	(12,147)

Mae'r gwarged gweithredol o £4,319k yn gynnydd sylweddol ar y gwarged gweithredol o £2,085k yn 2018/19, ac yn llawer uwch na'r targed a osodwyd ar gyfer 2019/20. Tra bod hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion parhaus gan y Coleg i wynebu'r pwysau cynyddol o gynnydd mewn costau staff a chynnydd sy'n llai ba chwyddiant mewn incwm craidd, nid oes amheuaeth y cafodd Covid-19 effaith arwyddocaol ar ail hanner y flwyddyn ariannol.

Y sgil natur unigryw'r pandemig byd-eang, cafwyd graddau sylweddol o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd ariannol drwy gydol chwarter olaf 2019/20.

Roedd y Coleg yn ffodus bod ganddo ffynonellau incwm allweddol a warchodwyd drwy gydol y pandemig. Yn gynnar iawn yn y cyfnod clo, eglurodd Llywodraeth Cymru'n glir i Golegau y byddai cyllid llawn amser, rhan-amser a phrentisiaethau'n parhau yn unol â'r hyn a gynlluniwyd ac y byddai targedau'n cael eu rhoi o'r neilltu ar gyfer 2019/20.

Er i ni ragweld y potensial am gynnydd sylweddol mewn gwariant i fodloni mesurau diogelwch Covid-19, roedd y costau'n is na'r disgwyl a gwelsom danwariant sylweddol hefyd drwy gydol y chwarter olaf ar draws ystod eang o gyllidebau gwariant, yn bennaf o ganlyniad i gyfnod clo Covid-19.

Y materion eraill i'w nodi ac sydd wedi eu hadnabod yn y gwarged gweithredol net yw:-

Costau pensiwn heb fod yn arian parod - mae'r diffyg am y flwyddyn yn cynnwys costau heb fod yn arian parod o £3,307K (2018/19 - £2,624K) a gyfyd o ganlyniad i adnabod yr LGPS yn unol â'r FRS 102 ac sy'n cynnwys dwy elfen:

<i>FRS 102 tâl uwchben cyfraniadau</i>	<i>£2,442k</i>	<i>(18/19 £1,798k)</i>
<i>Costau cyllid pensiwn</i>	<i>£865k</i>	<i>(18/19 £826k)</i>

Mae'r costau i'r cyfrif incwm a gwariant yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tybiaethau actiwaraid a symudiadau'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn - gyda'r ddau ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Coleg.

Dileu dyled Coleg Gwent Training Ltd debt - yn ystod 2018/19 amharodd y Coleg fenthyciad a gymeradwywyd i'w is-gwmni hyfforddi. Yn ystod 2019/20 dileodd y Coleg y balans llawn a oedd yn weddill. Golygodd hyn gost ychwanegol o £122k yn 2019/20.

Tâl dibrisiad carlam - Mae safonau cyfrifyddu yn ei gwneud hi'n ofynnol i werth trosglwyddo asedau gael eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau y cefnogir y gwerth gan lifau arian i'r dyfodol a symiau adferadwy. Lle nad yw hyn yn digwydd, er enghraifft, yn sgil penderfyniad i roi'r gorau i ased yn gynt na'r disgwyl, adnabyddir tâl dibrisiad carlam yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

Ym mis Rhagfyr 2017, cymeradwywyd y penderfyniad i gau ysgolion chweched dosbarth Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen gan Lywodraeth Cymru, gan eu trosglwyddo felly, ynghyd â gweithgarwch campws presennol Coleg Gwent Pont-y-pŵl, i mewn i'r ganolfan Ôl-16 newydd yng Nghwmbân, dan reolaeth a llywodraethiant Coleg Gwent. Bu i'r penderfyniad hwn felly, mewn gwirionedd, greu sefyllfa anochel ar gyfer y cynnig i gau campws Pont-y-pŵl y Coleg.

Cyn Covid-19, y dyddiad a gynlluniwyd ar gyfer cau campws Pont-y-pŵl oedd 31 Gorffennaf 2020 ac yn sgil hynny cafwyd tâl net dibrisiad carlam o grant a ohiriwyd ac a ryddhawyd o £920k a nodwyd yng nghyfrifon 2018/19. Yn anffodus cafodd y pandemig effaith ar gwblhau'r gwaith a dyddiadau meddiannu ein hadeilad newydd yng Nghwmbân, sy'n golygu mai 31 Rhagfyr 2020 yw'r dyddiad cau a drefnwyd ar gyfer campws Pont-y-pŵl. Mae'r cyfrifon hyn felly wedi adnabod tâl dibrisiad carlam a ailbrisiwyd ynghyd â rhyddhau grant cyfalaf a ohiriwyd gydag effaith net o £622k ar y cyfrif incwm a gwariant gydag effaith bellach o £293k i'w amlygu yng nghyfrifon 2020/21.

Costau ailstrwythuro - mae cyfanswm o £63k wedi ei wario wrth ariannu newidiadau sefydliadol graddfa fach drwy gydol y flwyddyn.

Cynnydd wrth gronni tâl gwyliau - mae safonau cyfrifyddu yn mynnu bod y Coleg yn ystyried cost unrhyw hawl am wyliau sy'n weddill gan staff wedi'i gronni erbyn diwedd y flwyddyn. Bob blwyddyn mae'r Coleg yn annog staff i archebu eu gwyliau blyneddol drwy system archebu electronig y Coleg. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae unrhyw wyliau heb eu cymryd yn cael eu costio drwy ddefnyddio cyfradd dâl ddyddiol pob aelod o staff a'r cyfanswm a gronnwyd wedi ei nodi yn y datganiadau ariannol blyneddol.

Yn ystod 2019/20 ac mewn ymateb uniongyrchol i effaith y pandemig ar staff, bu i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, gyda chefnogaeth y Llywodraethwyr, fynnu bod y Coleg yn cau am

bythefnos dros gyfnod y Pasg. Nid oedd yn ofynnol i staff archebu gwyliau blynyddol ar gyfer y cyfnod yma o gau ac o ganlyniad erbyn diwedd Gorffennaf 2020 roeddynt wedi cadw swm uwch o ddiwrnodau o wyliau heb eu cymryd na'r flwyddyn flaenorol, a oedd, wrth ei gostio, yn gynydd o £504k yn y crynhoad o dâl gwyliau.

Polisiâu ac Amcanion y Trysorlys

Rheoli Trysorlys yw rheoli llif arian y Coleg, ei waith bancio, trafodion arian y farchnad a chyfalaf drwy'r marchnadoedd; rheolaeth effeithiol o'r risgiau a gysylltir â'r gweithgareddau hynny; a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posib yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae gan y Coleg bolisi Rheoli Trysorlys ar wahân ar waith. Cafodd y polisi ei adolygu a chymeradwywyd polisi diwygiedig gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2019.

Arian Parod

Balans arian parod y Coleg ar 31 Gorffennaf 2020 oedd £14.9m (2019 - £11.8m). Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Coleg £4.3m mewn adnoddau cyfalaf er budd dysgwyr a staff, a chyflwynir manylion hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Effaith costau pensiwn ar ganlyniadau'r grŵp

Mae canlyniadau'r Coleg yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan ansefydlogrwydd sy'n deillio o ofynion cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a osodir yn FRS 102. Mae'r safon cyfrifyddu yn sicrhau gofynion y Coleg wrth gyfrifyddu cost ei ymrwymiad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) o ran ei staff cymorth busnes. Yn sgil hyn, mae'r costau i'r cyfrif incwm a gwariant a'r ymrwymadau a ddangosir ar y fantolen yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tybiaethau actiwaraid a symudiadau'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn - gyda'r ddau ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Coleg. Mae hyn yn berthnasol iawn i 2019/20, sef blwyddyn lle cafwyd dirywiad sylweddol yn sefyllfa ariannol amryw o gynlluniau pensiwn o ganlyniad i ansefydlogrwydd yn y farchnad, a choswyd gan bandemig Covid-19.

Fel yr eglurwyd uchod, mae'r gwarged am y flwyddyn yn cynnwys costau heb fod yn arian parod o £3.3m (2019 - £2.6m) a gyfyd o ganlyniad i adnabod yr LGPS yn unol â'r FRS 102.

Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth o'r ddarpariaeth pensiwn LGPS ar y fantolen wedi cynyddu £16.4m i £57.0m (2019 - £40.6m) yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datblygiad negyddol hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan ostyngiad sylweddol yn y gyfradd ddisgownt o 2.1% yn 2019 i 1.4% yn 2020 (yn bennaf yn sgil y cwmp yn arenillion bondiau corfforaethol AA), sy'n ceisio cynyddu'r gwerth a roddwyd ar oblygiadau gwasanaeth yn y gorffennol. Llwyddodd newidiadau i dybiaethau cynnydd mewn pensiynau a chyflogau i leddfu ychydig ar effaith y gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt.

Fodd bynnag, effeithiwyd ar werth y buddsoddiadau sylfaenol a ddelir yn ein cronfa ar 31 Gorffennaf yn negyddol gan ansefydlogrwydd yn y farchnad yn sgil y pandemig Covid-19, a arweiniodd at gynydd pellach yn y diffyg.

Mae diffyg yn y pensiynau o £57.0m yn cael effaith sylweddol ar fantolen y Coleg, gan greu asedau negyddol o -£26.1m (cynnydd o -£13.5m yn 2018/19). Nid oes fawr ddim y gall y Coleg ei wneud i ddylanwadu ar symudiadau yn y diffygion hyn, ar wahân i gynyddu cyfradd gyfrannu'r cyflogwr. Bu i brisiad bob tair blynedd o'r Cynllun a gwblhawyd yn 2019 arwain at ostyngiad yng nghyfradd gyfrannu'r cyflogwr o 26.4% i 18.9% (7.5%), ond mae'n debygol iawn y bydd hyn yn cael ei wyrdroi yn y prisiad nesaf oherwydd amodau'r farchnad ac economaidd ar hyn o bryd. Mae'r prisiad nesaf i'w gwblhau yn 2022.

Fodd bynnag, wrth ystyried effaith y gofynion cyfrifyddu hyn ar sefyllfa ariannol y Coleg, dylid nodi mai, yn eu hanfod, goblygiadau hirdymor yw'r rhai hyn yn ymwneud â phensiynau, ac wrth fodloni'r goblygiadau hyn bod y Coleg yn talu'r cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn a argymhellir gan yr actiwari cymwys annibynnol.

Perfformiad Taliad


Mae gan y Coleg delerau tau 30 diwrnod safonol gyda'r rhan helaeth o'i gyflenwyr ac felly'n bodloni gofynion Deddf Taliadau Hwyr Dyledion Masnachol (Llog) 1998. Mae'r cyflenwr yn cael gwybod am y telerau hyn drwy gael copi o amodau a thelerau'r Coleg gyda phob archeb brynu.

Mae'r cyfrifiad o berfformiad talu, a bennwyd yn wreiddiol yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon, yn seiliedig ar y ffigwr credydwr diwedd-blwyddyn, ac ar 31 Gorffennaf 2020 roedd y ffigwr yn 11 diwrnod (2019 - 7 diwrnod). Y rheswm am y cynnydd bach yw nifer fach o ymholiadau ynghylch taliadau gwerth uchel yn gysylltiedig â Covid, sydd bellach wedi eu datrys.

EIN DYSGWYR

Rhifau Dysgwyr

Yn 2019/20 Coleg Gwent oedd y Coleg o Ddewis ar gyfer **15,092** o ddysgwyr (2018/19 - 16,904) gan gynnwys:



Amrywiaeth ein Dysgwyr

Mae'r Coleg yn ymrestru poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr sy'n adlewyrchu'n eang y cymunedau a wasanaethir gan ei gampysau, y pum masnachfaint Addysg Gymunedol yn y sir A'i raglen Dysgu Seiliedig ar Waith. Yn 2019/20, roedd 9.8% (18/19 - 8.9%) o'n dysgwyr o grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a datganodd 16.7% (18/19 - 17.7%) o ddysgwyr eu hunain yn anabl a/neu'n meddu ar anhawster dysgu.

Roedd gwrywod yn cyfrif am 48.5% (18/19 - 48.4%) o ddysgwyr y Coleg yn 2019/20.

Mae'r Coleg yn gwasanaethu cyfran ychydig uwch o ddysgwyr o ardaloedd ag amddifadedd uchel mewn cymhariaeth â'r cyfartaledd mwyaf diweddar ar gyfer y sector (49.7% yn erbyn cyfartaledd sector o 49%). Wedi dweud hynny, mae hyn yn amrywio ar draws ein campysau, o 45% ar ein Campws Crosskeys i 64% ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent (BGLZ).


Mae dysgwyr o bob degradd yn perfformio'n dda ar bob mesur ac mae hyn yn gyson ar draws y categorïau. Wrth gymharu'r canlyniadau i ddysgwyr o ddegradd 1 gyda degraddau 5-10, mae'r gwahaniaeth yn y gyfradd lwyddo yn unol â chyfartaledd y sector a'r flwyddyn flaenorol. Rhodda hyn sicrwydd bod y Coleg yn cefnogi ei ddysgwyr yn dda a bod ganddo strategaethau ar waith sy'n cyfaddawdu'n llwyddiannus ar gyfer yr effaith negyddol posibl sydd ynghlwm ag amddifadedd ar ddysgu.

Canlyniadau Dysgwyr

Mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y mathau gwahanol o gymwysterau ac mae hwn wedi bod yn gyfnod heriol ac anodd i staff a dysgwyr. Yn dilyn y penderfyniad i gau ysgolion a Cholegau a chanslo'r gyfres arholiadau yn yr haf, roedd y rhan fwyaf o gyrff dyfarnu galwedigaethol yn araf iawn yn cadarnhau trefniadau ar gyfer cyflwyno graddau terfynol a bu i rai roi eu staff ar ffyrlo ar adeg dyngedfennol. Pan wnaethpwyd y penderfyniadau, yn aml roedd y terfynau amser yn dynn iawn ac yn achos rhai cyrff dyfarnu, roedd y swm o ddata y gofynnwyd amdano yn sylweddol gan arwain at dreulio sawl wythnos yn mewnbynnu graddau unedau. Cafodd rai dysgwyr hyd at dri chyfuniad

gwahanol o ganlyniadau. Mae hyn wedi cael effaith eang ar y system addysg gyfan ac ar ddysgwyr ledled y DU.

Cafodd dyfarniadau diwedd y flwyddyn 2019/20 eu rhannu'n dri chategori:



Gweithiodd y timau addysgu yn galed dros sawl mis i gwblhau graddau disgwylidig a gweithiodd ein tîm iechyd a diogelwch yn galed i hwyluso mynediad diogel ar ein campysau i gwblhau asesiadau wedi'u haddasu a/neu eu hoedi.

Er bod y Coleg wedi llwyddo i sicrhau y gall dysgwyr hawlio cymhwyster, mae oddeutu 500 o ddysgwyr sydd eto angen cwblhau eu hasesiadau yn nhymor cyntaf 2020/2021.

Lefelau 'A'

Er y problemau gydag arholiadau a graddau disgwylidig eleni, roedd y Coleg ar ben ei ddigon unwaith eto gyda chanlyniadau Lefel A 2019/20, gan weld gwelliant cyffredinol o'r flwyddyn flaenorol ac yn uwch na'r cymharydd yng Nghymru a'r DU am y bumed flwyddyn



yn olynol.

- Cyfradd lwyddo Campws Crosskeys ar gyfer graddau A*-C oedd 85.33% gyda thri deg o bynciau ar y Campws yn cyflawni cyfradd lwyddo o 100%.
- Cyfradd lwyddo BGLZ ar gyfer graddau A*-C oedd 88.0%, sy'n gynydd ar 75.9% y flwyddyn flaenorol.
- Cafodd 79 o 369 (21.4%) o fyfyrwyr Coleg Gwent a safodd eu Lefelau A o leiaf un radd A*.

Canlyniadau TGAU

Bu i 98.4% o'n dysgwyr a ddilynodd raglen TGAU Mathemateg ennill cymhwyster (A* i G) gyda 30.5% yn ennill graddau A* i C.

Bu i 98.8% o'n dysgwyr a ddilynodd raglen TGAU Saesneg ennill cymhwyster (A* i G) gyda 44.6% yn ennill graddau A* i C.

Cymwysterau Galwedigaethol

Yn sgil effaith Covid-19, mae angen i oddeutu 10% o'n dysgwyr galwedigaethol gwblhau eu hasesiadau. Felly, mae gennym set data anghyflawn ar gyfer ein cymwysterau galwedigaethol. O ran y cyrsiau hynny sydd wedi'u cwblhau, mae'r cyrhaeddiad yn unol â blynyddoedd blaenorol. Ar hyn o bryd, mae'r cyrhaeddiad ar gyrsiau wedi'u cwblhau yn 86% (y canlyniad arferol yw 93%) a chyfradd lwyddo o 76%. Rydym yn amcangyfrif bod cymwysterau anghyflawn yn tynnu oddeutu 8% oddi ar y canlyniad cyffredinol. Os fydd y cyrsiau sydd ar ôl i'w cwblhau yn cael eu cwblhau i'r un lefel cyrhaeddiad, yna mae'r Coleg yn amcangyfrif cyrhaeddiad o 93% (yn unol â'r llynedd) a chyfradd lwyddo o 83% (ychydig yn uwch oherwydd dargadwedd gwell y llynedd).

Mae'r Coleg yn gweithio'n galed yn ystod tymor cyntaf 2020/21 i gefnogi dysgwyr i gwblhau eu cymwysterau ond mae hyn yn debygol o gymryd hyd at wyliau'r Nadolig a thu hwnt o bosibl.

Prentisiaethau

Mae'r Coleg yn rhagweld cyfradd lwyddo fframweithiau llawn mewn perthynas â phrentisiaethau o 62%. Mae hyn yn siomedig ond mae'n bennaf oherwydd effaith sylweddol Covid-19 ar brentisiaid. Mae nifer o'n prentisiaid bellach ar ffyrlo ac mae hyn yn cael effaith sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r fframwaith.

Targedau Cyllid

Yn gyffredinol, cyflawnodd y Coleg 96.3% o'i darged llawn amser gan Lywodraeth Cymru, a 89.4% o'i darged rhan amser. Mae'r diffyg yn erbyn y targed rhan amser o £446,000 yn bennaf oherwydd cyfnod clo Covid-19 yn ystod rhan olaf y flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd unrhyw adfachu ar gyfer 2019/20 oherwydd mesurau amddiffyn cyllid Covid-19.

DATBLYGU CWRICWLWM

Mae'r strwythur Cyfadrannau newydd a gafodd ei weithredu ym mis Awst 2019 wedi cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Coleg yn gweithio ac wedi galluogi ffocws mwy clir ac effeithiol ar ddatblygu cwricwlwm gyda phob cyfadrannau wedi treulio amser a gwneud ymdrech sylweddol i ddatblygu strategaethau ar draws y Coleg, un ar gyfer pob maes pwnc. Bydd y rhain yn galluogi dull mwy strategol ac yn seiliedig ar gwricwlwm i reoli busnes y Coleg ac maent yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer pob maes cwricwlwm. Mae hyn hefyd yn cyflawni buddion i gyflogwyr lleol, a fyddai'n flaenorol wedi gorfod cael cysylltiadau ar wahân ar gyfer pob campws. Gwelwyd cyflawniadau arbennig yn 2019/20 mewn nifer o feysydd cwricwlwm:

DIGIDOL

Lansio Cymhwyster Seiberddiogelwch y Coleg sydd wedi'i ddylunio ar y cyd â phartneriaid arbenigol yn y diwydiant

A

SEIBER

Ni yw'r coleg cyntaf yng Nghymru i ddod yn Goleg Aur CyberFirst

Rydym yn un o ddau Goleg yng Nghymru i fod ynghlwm â menter Cyber College Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru drwy'r Rhaglen Mewnwelediad Strategol a ariennir gan y CCAUC

Mae labordai Seiber newydd wedi'u creu ar ddau o'n campysau (Crosskeys a Chasnewydd) ac mae gwaith datblygu trydydd labordy yn mynd rhagddo yn ein Parth Dysgu Blaenau Gwent.

CAREER COLLEGES

Mae'r Career Colleges Trust yn elusen wedi'i sefydlu ag un amcan cynradd: **cefnogi myfyrwyr i gael gyrfaoedd gwyb**

Yn 2018/19, gweithiodd y Coleg â'r Ymddiriedolaeth a lansiwyd Digital Career College ar gampysau Casnewydd a Crosskeys a Care Career College yn ein Parth Dysgu Blaenau Gwent

Yn 2019/20, mae'r datblygiadau hyn wedi cefnogi cyflogwyr i gyfrannu at y cwricwlwm ac wedi cyflwyno ystod o weithgareddau cyfoethogi ehangach i ddysgwyr elwa ohonynt, gan wella eu cyfleoedd dilyniant

Mae'r dull gweithredu Career College wedi hwyluso ffordd newydd o feddwl am gyfraniad cyflogwyr ac wedi darparu cyfleoedd i staff a dysgwyr atgyfnerthu'r cwricwlwm a phrofiad dysgwyr

PEIRIANNEG

Mae'r Coleg yn parhau i fod wedi'i achredu gan yr Academi Sgiliau Cenedlaethol, Rail (NSAR) a dyma'r unig ganolfan wedi'i hachredu yng Nghymru.

Mae'r NSAR yn sefydliad aelodaeth ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd sydd wedi'i sefydlu yn Lloegr i gynrychioli cyflogwyr mewn materion hyfforddiant a sicrhau ansawdd cymwysterau sydd eu hangen ar y diwydiant.

Mae'r NSAR yn gwahodd Colegau i ddod yn aelodau sydd â phroffiliau ansawdd cryfion ac wedi'u lleoli'n strategol i ddarparu'r diwydiant â digonedd o hyfforddiant

Mae recriwtio ar gyfer rhaglenni peirianneg wedi parhau i fod yn weddol gyson, er bod twf parhaus wedi bod yn BGLZ, lle mae cyrsiau peirianneg lefel uwch wedi arbenigo mewn chwaraeon modur a pheirianneg awyrenegol uwch, y ddau ohonynt yn boblogaidd

Mae BGLZ hefyd yn gartref i ganolfan uwchgyfansoddion y Coleg: yr unig ganolfan uwchgyfansoddion yng Nghymru. Mae adeiladwaith wedi cynyddu fymryn hefyd, er bod y ganolfan adeiladwaith ar Gampws Pont-y-pŵl wedi cau.

SGILIAU

Mae'r Coleg wedi'i ddewis i fod yn rhan o flwyddyn gyntaf Canolfan Rhagoriaeth WorldSkills UK. Dyma gryn gyflawniad gan fod dros chwarter o Golegau ledled y DU wedi gwneud cais ac mae'r Coleg yn un o ddau yn unig yng Nghymru i fod yn llwyddiannus.

Mae'r Coleg yn parhau i flaenoriaethu datblygiad sgiliau dysgwyr llawn amser. Mae pob dysgwr sy'n astudio cymhwyster Lefel 3 dros ddwy flynedd yn ymgymryd â chymhwyster Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Mae pob dysgwr llawn amser arall yn astudio rhaglen Gweithgareddau Sgiliau y mae'r Coleg wedi'i datblygu mewn partneriaeth ag Agored. Canolbwyntio mae hon ar ddatblygu sgiliau cyflogadwydd, gan sicrhau bod pob dysgwr llawn amser yn cael cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ei ddilyniant cadarnhaol.

Mae'r Coleg hefyd yn blaenoriaethu datblygu Mathemateg a Chymraeg/Saesneg hyd at lefel 2 i bob dysgwr llawn amser. Mae'r cwricwlwm wedi'i ddylunio i alluogi pob dysgwr i weithio tuag at gyflawni TGAU yn y pynciau hyn dros amserlen briodol, yn dibynnu ar eu cymwysterau TGAU pan fyddant yn cyrraedd y Coleg

ADDYSG UWCH

Mae'r Coleg wedi parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth AU. Mae llwybrau dilyniant ar gael bron ym mhob maes pwnc ac mae niferoedd AU wedi parhau i godi, gan wneud y Coleg yn un o ddarparwyr AU mewn AB mwyaf yng Nghymru

Llwyddiant ysgubol yw'r Radd Sylfaen newydd mewn Nyrsgo Milfeddygol, ac mae'r Coleg yn cynnig BSc atodol yn y maes hwn.

Mae'r Coleg wedi datblygu rhaglen lechyd Meddwl mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerwrangon a recriwtiodd am y tro cyntaf yn 2018/19

Mae partneriaeth â Phrifysgol Aberystwyth yn cefnogi Gradd Sylfaen mewn Astudiaethau Ceffylau.

BUDDSODDIAD YN EIN STAFF

Yn 2019/20, roedd y Coleg yn gyflogwr o ddewis i 947 o gydweithwyr (18/19 - 934). Mae dros hanner y rhain (51%) yn meddu ar swyddi addysgu. Mae'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn rhannol o ganlyniad i recriwtio tîm newydd o staff lefel 'A' mewn perthynas â Pharth Dysgu newydd Torfaen (TLZ).

Wrth ystyried ein proffil staff, rydym yn nodweddiadol yn cyflogi mwy o fenywod (63%) na gwrywod (37%) a gellir gweld hyn ar draws pob swydd. Wrth ystyried y rhaniad rhwng y rhywiau ymhlith staff rheoli, mae'r tîm yn cynnwys 55% o fenywod a 45% o wrywod.

O ran oedran, mae 76% o'n gweithlu rhwng 31 - 60 oed. Mae dros chwarter o'n cydweithwyr (28%) rhwng 51-60 oed, gydag 11% rhwng 21-30 oed.

Mae'r nifer o staff a gyflogwn o gefndiroedd ethnig yn parhau i fod yn isel iawn, gyda 95% o staff yn dod o gefndir gwyn. Dangosir drwy ddata cydraddoldeb bod 34% o staff yn ystyried eu hunain yn Gymraeg, a 66% o staff yn ystyried eu hunain yn Brydeinig pan ofynnwyd iddynt ddatgelu eu cenedligrwydd.

Mae ein data yn dangos bod 5% o gydweithwyr wedi adrodd eu hunain yn anabl.

Mae data'r Coleg hefyd yn arddangos bod 77% o staff yn heterorywiol, gydag 1% yn datgan eu bod yn hoyw neu lesbiad a 0.5% yn datgan eu bod yn ddeurywiol. Dewisodd nifer o staff beidio â datgan eu cyfeiriadedd rhywiol.

Wrth gymharu'r data cydraddoldeb ar gyfer y flwyddyn flaenorol, prin yw'r newid a welwn oherwydd trosiant staff isel.

Mae'r Coleg yn awyddus i annog a chefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb ymhlith ei holl ddysgwyr, staff ac ymwelwyr, gan gydnabod y cyfraniadau arbennig at gyflawni cenhadaeth y Coleg all unigolion o ystod eang o gefndiroedd a phrofiadau eu gwneud. Ar hyn o bryd, rydym yn ymgymryd ag adolygiad o'n Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i sicrhau bod aelodaeth yn gynrychiolaidd ar draws pob swydd a lefel, yn ogystal â phenodi unigolion sy'n frwdfrydig ac yn ymroddedig i hybu newid ym mhob agwedd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac sy'n dymuno chwarae rôl weithredol yn cefnogi a gwella diwylliant a chymuned Coleg Gwent. Rydym yn gobeithio y bydd y dull gweithredu newydd hwn yn ein cefnogi'n rhagweithiol i oresgyn rhai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd

Tâl a Chydnabyddiaeth Staff

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod llwyddiant y Coleg yn seiliedig ar waith caled a chyfraniad ei staff a'i bod yn hanfodol y cânt eu gwobrwyo'n deg a rhesymol. Yn ogystal, mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder a chydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ynghylch tâl a chydnabyddiaeth, ac mae'n cydymffurfio â'r gofynion i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â materion o'r fath.

Yn ystod 2019/20, cafodd staff gynnydd cyfartalog mewn tâl o 3%, yn amrywio fesul grwpiau staff fel a ganlyn:

Dyfarniad Cyflog 2019/20	
Darlithydd Cyswllt (A01 - A04)	2.75%
Darlithydd (MG1)	5.00%
Darlithydd (MG2 UP3)	2.75%
Hyfforddwr Arddangoswr	2.75%
Hyfforddwyr Proffesiynol	2.75%
Cymorth Busnes	2.75%
Meingefn Rheoli	2.75%

Yn dilyn adolygiad o oriau darlithwyr sy'n cael eu talu fesul awr ac anghenion y cwricwlwm, llwyddasom hefyd i greu 18 contract parhaol cyfwerth â llawn amser ychwanegol ar draws y Coleg

Mae'n ofynnol i'r Coleg hefyd adrodd yn flynyddol ar ei fwlch tâl rhwng y rhywiau. Yn ystod 2019/20, adroddasant fwlch tâl cymedrig rhwng y rhywiau o 7% a bwlch tâl canolrifol rhwng y rhywiau o 17.91%.

Mae'r manylion llawn ar gael yn ein Hadroddiad Tâl y Rhywiau, y gallwch ei ddarllen drwy ddefnyddio'r ddolen isod neu drwy fynd i wefan y Coleg, www.coleggwent.ac.uk:

<https://www.coleggwent.ac.uk/wp-content/uploads/2020/04/Gender-Pay-Gap-2020-EN.pdf>

Ers datgan pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020, mae cryn dipyn o'n hamser a'n hymdrech wedi canolbwyntio ar gefnogi ein staff i ymdrin â'r heriau a godwyd o ganlyniad. Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd gofyn i'r Coleg ymateb yn gyflym drwy nifer o newidiadau, ac mae'n debyg y bydd hyn yn parhau. Mae ein staff wedi bod yn gwbl allweddol yn sicrhau bod dysgu effeithiol a darpariaeth y gwasanaeth yn parhau, a blaenoriaeth i'r Coleg felly oedd sicrhau ein bod yn arwain, cefnogi a chymell staff yn effeithiol drwy gydol y pandemig hwn ac i'r dyfodol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi ymdrechion staff a weithiodd gyda'i gilydd i reoli effaith y pandemig.

Y	Cydweithio ar draws y sector ar lefel genedlaethol a chynnal presenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd ar draws y sector drwy Colegau Cymru.
R	Sefydlwyd Grŵp Llywio Covid a Grŵp Cynllunio Gweithredol a chynhaliwyd cyfarfodydd cyson i drafod a datrys heriau wrth iddynt ddod i'r amlwg
Y	Cafodd pob polisi a gweithdrefn eu hasesu i sicrhau bod datrysiadau arloesol yn cael eu gweithredu a sicrhau y gallai gweithrediadau barhau'n effeithiol
M	Cafodd cysylltiad rheolaidd â'r Undebau ei gynnal, mewn perthynas â materion cyffredinol a materion Covid-19 hefyd.
D	Gofynnwyd i bob cydweithiwr lenwi Holiadur Dychwelyd i'r Gwaith i'n caniatáu ni i gefnogi ein cydweithwyr mwyaf bregus. Cedwir data lechyd Dychwelyd i'r Gwaith ar gyfer 92% o staff petai mesurau gwarchod yn dychwelyd
R	Rhodddwyd mesurau monitro ac olrhain mewnol ar waith a magwyd cysylltiadau da ag lechyd Cyhoeddus Cymru a'r timau monitro ac olrhain rhanbarthol.
E	Rhannwyd cyfathrebiadau mewnol rheolaidd gan ddefnyddio amrywiaeth o sianelau, gan gynnwys digwyddiadau byw drwy MS Teams, sesiynau holi ac ateb byw, negeseuon gan y Pennaeth ac InTouch.
C	Cyflwynwyd Polisi Gweithio Gartref newydd i ymateb i'r ffyrdd newydd o weithio
H	Lansiwyd gwefan Adfer wedi Covid i sicrhau y gallai cydweithwyr gael mynediad at y wybodaeth ddiweddaraf
C	Aeth timau o staff ati i ragweld 2,300 gradd pynciau lefel 'A', dros 1,300 o raddau TGAU a degau ar filoedd o unedau galwedigaethol
O	Crëwyd 1,200 o fyrddau gwaith rhithiol a rhannwyd 257 o liniaduron (o fewn ychydig ddyddiau o gyhoeddi'r cyfnod clo) er mwyn galluogi staff i weithio gartref a pharhau i ddysgu
V	Llwyddodd ein tîm Cyflogres i brosesu cyflogresi bob 6 mis, y cwbl o bell ar gyfer dros 1,000 o staff.
I	Mae ein Tîm Iechyd a Diogelwch wedi asesu 5 campws ac mae 815 o ystafelloedd wedi'u paratoi i sicrhau eu bod yn ddiogel o ran Covid er mwyn dychwelyd yn ddiogel
D	Cefnogodd y Coleg Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyda'i ymdrechion Covid-19 drwy hwyluso'r defnydd o'n safleoedd ac adnoddau ar gyfer hyfforddiant staff, cynhyrchu fisorau a rhannau ar gyfer peiriannau anadlu a gwasanaethau eraill

Er bod ymateb i heriau'r pandemig wedi bod yn ymdrech sylweddol i bob tîm ar draws y Coleg, rydym hefyd wedi parhau â mentrau a oedd wedi'u cynllunio, y mae nifer ohonynt wedi'u crynhoi ar y dudalen nesaf.

BUDDSODDI MEWN STAFF - 2019/20

Ymgysylltiad
Staff

Lansiasom borth staff newydd, modern gyda gwell capasiti o ran cyfathrebu ac ymgysylltiad staff, gan ddefnyddio technoleg Microsoft Office 365 i'n cynorthwyo ni

Rydym wedi cyflwyno 3 Chyfarfod i'r Holl Staff, 2 Gyfarfod OUMT (Un Tim Rheoli Unedig), ac wedi cyhoeddi 24 cylchlythyr staff wedi'u hail-ddylunio (InTouch)

Cyflwynasom ein Gwobrau Dathlu Rhagoriaeth i ddathlu cyflawniadau staff a rhoi cydnabyddiaeth i gydweithwyr am eu hymdrechion

Aethom ati i gynnal nifer o arolygon staff i gasglu safbwyntiau ac adborth mewn perthynas â gweithio gartref, cyfathrebiadau mewnol a chynnwys ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant staff

Cynaliasom nifer o ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol, gan gynnwys yr ymgyrch campws mwy diogel

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Darparwyd hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn ac yn rhan o'r sesiynau oedd; Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Diogelu, Urddas yn y Gwaith, GDPR ac Iechyd a Diogelwch

Roedd ein diwrnodau hyfforddiant mewn swydd hefyd yn seiliedig ar y thema Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Iechyd a Llesiant a chynhaliwyd sesiynau rhyngweithiol gyda staff i godi ymwybyddiaeth mewn perthynas â rhywedd, anabledd, iechyd meddwl a cham-drin domestig

Yn 2019/20, gwnaethom lansio ein porth adnoddau datblygiad proffesiynol parhaus ar-lein Addysgu a Dysgu newydd

Mae ein mentoriaid Addysgu a Dysgu wedi parhau i ddarparu cefnogaeth un i un deilwredig i staff addysgu

Cyflwynodd y tîm Addysgu a Dysgu y Microsoft Educator Centre i gefnogi gydweithwyr i ddatblygu eu sgiliau digidol

I ymateb i'r sefyllfa bresennol, cyflwynasom nifer o sesiynau hyfforddiant yn canolbwyntio ar fagu perthnasoedd gyda dysgwyr mewn amgylchedd digidol

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rhannodd ein Pennaeth ei safbwyntiau a gobeithion i bob staff mewn perthynas â'r mudiad Mae Bywydau Du o Bwys a gofynnodd i'n cydweithwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig rannu eu profiadau o weithio yn Coleg Gwent

Ysgogwyd partneriaeth gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

Sefydlwyd partneriaeth rhwng y Coleg a Chyngor Casnewydd i gefnogi gyda chyflawni'r prosiect Reach+. Mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo ffoaduriaid i ail-adeiladu eu bywydau ac integreiddio yn eu cymunedau lleol

Mae'r Coleg wedi creu a chyhoeddi ei Starter Amrywiaeth

Etholwyd cynrychiolwyr Dosbarth ac Ysgol a thrafodwyd gweithredoedd amrywiaeth ar Fforymau Ysgol a Fforymau Dysgwyr y Pennaeth

Cynhaliwyd bore goffi LGBTQ+ a dathlwyd mis hanes LGBTQ+

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Tâl y Rhywedd a chynllun gweithredu ac mae'r Coleg yn olrhain yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol

Iechyd a Llesiant

Mae data absenoldeb salwch cyffredinol ar gyfer y Coleg rhwng 2019/20 yn dangos cyfradd absenoldeb (%) o 6.4%, sy'n uwch na'r targed o 4% ac yn faes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol

Rydym wedi buddsoddi mewn penodi Swyddog Iechyd a Llesiant newydd i gynorthwyo i gynyddu mentrau llesiant a gwella ein cynnig i staff a dysgwyr

Yn ogystal, mae dangosfwrdd absenoldeb newydd wedi'i ddatblygu i roi cefnogaeth well i reolwyr llinell gyda cheisio a monitro achosion salwch eu hadran yn annibynnol

Yn ddiweddar, lansiodd y Coleg 'TogetherAll'. Cymuned ar-lein ydyw er mwyn i'n staff a dysgwyr gael cefnogaeth iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad at arbenigwyr sydd wedi cael hyfforddiant ac yn cynnig arbenigedd clinigol, cefnogaeth cyfoedion ac amgylchedd ar-lein diogel, er mwyn gwella llesiant meddyliol

BUDDSODDI YN EIN HYSTÂD, TECHNOLEG AC ADNODDAU FFISEGOL

Er yr anawsterau a gyflwynwyd gan Covid-19, rydym wedi parhau i weithio'n galed i atgyfnerthu adnoddau i'n dysgwyr a staff ac yn 2019/20 gwnaethom fuddsoddi £4.3m mewn gwahanol brosiectau, fel y crynhoir yn y siart isod.

BUDDSODDIAD YN EIN HYSTADAU A CHYFLEUSTERAU £1,183k

Mae Parth Dysgu newydd Torfaen wedi'i drosglwyddo i'n dwylo ni. Mae'r gwaith paratoi gwerth £1.6M gan Coleg Gwent wedi'i gynllunio'n fanwl ac mae bellach yn mynd rhagddo

Defnyddiwyd cyllid Ôl-groniad Cynnal a Chadw gan Lywodraeth Cymru i osod to newydd ar adeiladau pwysig yn Crosskeys a Chasnewydd a hefyd i adnewyddu rai toiledau, ffenestri/drysau a pheth gwaith ail-addurno

Mae prosiect sylweddol yn dirwyn i ben sy'n adleoli Canolfan Ddata TGCh o Gampws Pont-y-pŵl i Gampws Crosskeys cyn cael gwared ar y campws hwnnw

Mae prosiectau adeiladu i gefnogi cwrs Therapi Cyflenwol AU newydd yn Crosskeys a Hwb Seiber newydd yn BGLZ yn mynd rhagddynt

Mae gwaith i gaffael caniatâd cynllunio ar gyfer Prosiect Adeiladu Canolfan Ragoriaeth Arlwygo a Lletygarwch 1917 ym Mrynbuga wedi'i gwblhau ac mae adolygiad o gostau yn mynd rhagddo

BUDDSODDIAD MEWN TECHNOLEG £2,272k

Rydym wedi cwblhau buddsoddiad sylweddol arfaethedig mewn isadeiledd bwrdd gwaith rhithiol sydd wedi bod yn amhrisiadwy o ran cefnogi gweithio o bell yn ystod y pandemig

Mewnosod a chyflwyno system ffonau newydd

Oherwydd Covid-19 a'i effaith ar brosiect adeiladu Parth Dysgu Torfaen, cafodd yr isadeiledd, Byrddau Gwyn Rhyngweithiol, Cyfrifiaduron a dyfeisiau Symudol ar Gampws Pont-y-pŵl eu diweddarau neu eu haddasu i baratoi at y cwricwlwm newydd Addysg Gyffredinol

Cafodd oddeutu 500 o ddyfeisiau symudol a chyfarpar TGCh eu rhannu at ddefnydd staff rhwng mis Mawrth 2020 a haf 2020.

Mae gwaith isadeiledd cychwynnol wedi'i gynnal ym Mharth Dysgu newydd Torfaen

Lansio gwefan a phorth staff newydd

BUDDSODDIAD MEWN CYFARPAR CWRICWLWM AC ADNODDAU ERAILL £691k

Rydym wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn adnoddau i gefnogi ein Canolfan Deunyddiau Uwch yng Nglynebwy, gan gynnwys adnoddau ar gyfer ein darpariaeth awyrenegol a chwaraeon modur. Mae hyn yn cefnogi diffyg sgiliau lleol a rhanbarthol.

Rydym wedi prynu cyfarpar cwricwlwm Trin Gwallt a Harddwch, gan gynnwys dyfeisiau wyneb Dermalift a dyfeisiau Galfanig Microgerrynt i'r Corff.

Mae ein dysgwyr adeiladwaith wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol mewn cyfarpar newydd i gefnogi ein darpariaeth Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi buddsoddi mewn cyfres o geir hyfforddiant diweddaraf ar gyfer ein cyrsiau Cerbydau Modur, sy'n cynnwys cerbydau trydanol a hybrid ynghyd â beiciau modur

PARTNERIAETHAU

Mae Coleg Gwent wedi llwyddo i gynnal ac ymgysylltu â nifer o bartneriaethau newydd a chyfredol drwy gydol cyfnod anodd i'n rhanddeiliaid a'r Coleg.

Mae'r Pennaeth yn parhau i gynrychioli'r sector AB ym Mhartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sef y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar gyfer de-ddwyrain Cymru. Ymhlith ei chyfrifoldebau, mae'r bartneriaeth hon yn chwarae'r rôl bwysig o gynghori Llywodraeth Cymru ar flaenoriaethau sgiliau ar gyfer economi rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

Mae'r Coleg yn cwmpasu pum ardal Awdurdod Lleol a gwneir ymdrech i ymgysylltu â phartneriaethau strategol a gweithredol perthnasol, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, grwpiau sgiliau a hyfforddiant a fforymau economaidd. Mae'r Coleg yn cryfhau'n barhaus ei gysylltiadau ag Awdurdodau Lleol a chaiff ei gydnabod fel rhanddeiliad yn yr agendâu sgiliau, twf a ffyniant ledled Gwent.

Mae'r flwyddyn hon wedi gweld cynnydd sylweddol mewn partneriaethau â chyflogwyr allweddol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r coleg wedi gweithio gyda chyflogwyr technoleg mawr, sef Thales, Admiral a Fujitsu ynghyd â Choleg Pen-y-bont ar Ogwr a Phrifysgol De Cymru i ddatblygu Cyber College Cymru. Mae hon yn fenter newydd sbon, a bydd y peilot yn dechrau mis Medi 2020, sy'n darparu cyfraniad gan ddiwydiant i greu llwybrau i yrfaoedd digidol.

Yn sgil partneriaeth strategol rhwng Tîm TGCh y Coleg a Citrix, bu i'r Coleg fuddsoddi'n sylweddol mewn isadeiledd bwrdd gwaith rhithiol sydd wedi trawsnewid profiad dysgwyr a staff. Fel rhan o'r prosiect, daeth strategaethau Technoleg ac Addysgu a Dysgu'r Coleg ynghyd i gyflawni datrysiad technegol o'r radd flaenaf i gefnogi dysgu cyfunol yn llawn. O ganlyniad i'r prosiect, cafodd y Coleg ei arddangos gan Citrix am ei weithredu a'r buddion i'n dysgwyr a staff.

<https://www.citrix.com/customers/coleg-gwent-en.html>

Mae'r Coleg yn bartner sylweddol yng Nghonsortium Gyrfaedd Gofal Gwent, sydd hefyd yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, y pum Awdurdod Lleol yng Ngwent, prosiectau cyflogadwyedd rhanbarthol a darparwyr gofal cymdeithasol preifat. Amcan y grŵp yw bodloni'n well gofynion swyddi gwag cyfredol ac yn y dyfodol yn sectorau gofal iechyd meddwl a gofal cymdeithasol lleol. Mae'r grŵp eisoes wedi'i gydnabod fel Esiamplwr y Comisiwn Bevan ac wedi cyrraedd y rownd derfynol yng Ngwobrau Gofal Cymdeithasol Cymru 2020.

Mae'r partneriaethau sy'n cefnogi i gyflawni prosiectau sydd wedi'u hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn parhau i ddarparu rhagor o werth i'r Coleg, dysgwyr a chyflogwyr lleol. Mae'r prosiectau Ysbrydoli i Gyflawni, sy'n cael eu harwain gan Awdurdodau Lleol, yn ymwneud â nifer o bartneriaethau rhanbarthol a'u nod yw cefnogi dysgwyr sydd fwyaf mewn risg o ddod yn NEET. Mae'r prosiectau Uwchsgilio @ Waith dan arweiniad Coleg Gwent a Choleg y Cymoedd, ac yn waith ar y cyd rhwng partneriaid AB yn ne-ddwyrain Cymru a Phowys. Yn ogystal, mae'r Coleg yn cadeirio rhwydwaith sgiliau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, sy'n grŵp eang o gyrff AB, AU, Awdurdod Lleol a thrydydd sector sy'n cyflawni sgiliau a hyfforddiant.

Mae'r Coleg yn cynnig contract Prentisiaeth fel rhan o'r consortiwm Dysgu Seiliedig ar Waith, sydd dan arweiniad Coleg Sir Benfro. Mae'r trefniant hwn yn gweithio'n dda ac mae'r consortiwm yn darparu llawer o gefnogaeth i raglen Prentisiaeth y Coleg, yn ogystal â hwyluso contract Llywodraeth Cymru. Mae'r Coleg hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu i gefnogi darpariaeth Prentisiaethau yn y sector adeiladwaith.

Mae Coleg Gwent wedi parhau i weithio â'r Careers College Trust. Rydym yn gweithio'n agos â'r ymddiriedolaeth genedlaethol hon i ddatblygu cysylltiadau cryfach rhwng y cwricwlwm ac anghenion cyflogwyr yn y meysydd blaenoriaeth digidol ac iechyd a gofal. Bydd y Coleg yn adeiladu

ar hyn dros y blynyddoedd nesaf i gryfhau'r rôl allweddol sydd gan AB mewn cyfarparu dysgwyr ar gyfer gwaith a bodloni anghenion sgiliau lleol.

IECHYD, DIOGELWCH A PHERFFORMIAD AMGYLCHEDDOL

lechyd a Diogelwch

Yn ystod 2019/20, cyflawnodd y Coleg nifer o nodau iechyd a diogelwch, sy'n dangos dull gweithredu'r Coleg i leihau risg a darparu amgylchedd diogel i'r holl staff a dysgwyr gan sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Wedi dweud hynny, ers mis Mawrth 2020 mae gwaith tîm lechyd a Diogelwch y Coleg wedi'i ddominyddu gan yr ymateb i Covid-19 ac mae ein hymdrechion wedi'u cydnabod yn esiampl dda gan ein partneriaid lechyd yr Amgylchedd lleol.

Yn fwy cyffredinol, caiff cofrestr risg a chyfleoedd iechyd a diogelwch y Coleg ei hadolygu'n flynyddol gan y Pennaeth lechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd a'i monitro gan y Pwyllgor lechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd sydd â chynrychiolaeth ar y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd. Mae'r adolygiad yn sicrhau bod y peryglon iechyd a diogelwch sylweddol a'r risgiau cysylltiedig i'r Coleg yn cael eu hasesu, bod y mesurau rheoli yn cael eu hadolygu a bod camau gweithredu priodol yn cael eu hadnabod er mwyn lleihau'r risgiau hynny.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg 43 o risgiau lechyd a Diogelwch sylweddol, y mae 25 ohonynt wedi'u hasesu'n risgiau isel, 18 wedi'u hasesu'n risgiau canolig a dim un wedi'u hasesu'n risgiau uchel.



Bu i asesiad Covid-19 y Coleg gymryd i ystyriaeth y canllawiau cyfredol a gyhoeddwyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Caiff yr asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r canllawiau Covid-19 yn cael eu cymryd i ystyriaeth a'u gweithredu lle bynnag sy'n

ofynnol. Mae pob adolygiad a newid i'r asesiad risg wedi'u cynnal yn dilyn ymgynghoriad â Chynrychiolwyr Diogelwch Undeb y Coleg. Mae unrhyw newidiadau neu addasiadau sylweddol i'r asesiad risg wedi'u cyfathrebu i'r holl staff a dysgwyr

Amgylcheddol

Yn ystod 2019/20, llwyddodd y Coleg i gynnal ei achrediad o Safonau Rheolaeth Amgylcheddol ISO 14001:2015 a dyma'r unig Goleg Addysg Bellach yng Nghymru i feddu'r safon rheolaeth.

Yn ogystal, parhaodd y Coleg i chwarae rôl weithredol a sylweddol yn cefnogi ei gymunedau lleol drwy ddatblygu partneriaethau cydweithredol a rhaglenni ymgysylltu â myfyrwyr gyda Cynnal Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, SEWTA, Carbon Trust, Plan-it Eco a Coed Cadw.

Mae'r Coleg yn parhau i fonitro ei ddefnydd o ynni ac yn parhau i weithio tuag at ei dargedau amgylcheddol (dylid nodi bod y cyfnod clo cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2020 wedi chwarae rhan yn y canlyniadau canlynol):

Parhaodd y Coleg i weithio tuag at ei darged o fod yn ddi-wastraff o ran tirlenwi drwy atal 95% o gyfanswm y gwastraff a grëwyd gan y Coleg rhag cael ei anfon i safle tirlenwi.

Ar gyfer 2019/20, roedd cyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd yn gyfwerth â 9,673,956, gostyngiad o 1,105,436 kWh mewn cymhariaeth â 2018/19 (10,779,392 kWh)

Roedd cyfanswm y dŵr a ddefnyddiwyd ar gyfer 2019/20 yn gyfwerth â 11,871 m³. Mewn cymhariaeth â 2018/19 (18,398), roedd hyn gyfwerth ag arbediad o 6,527 m³.

Roedd cyfanswm y CO_{2e} ar gyfer 2019/20 gyfwerth â 3,292,117 CO_{2e}. Mae hyn yn ostyngiad o 505,410 kg (12.5%) mewn cymhariaeth â 2018/19


ANSICRWYDD A RISGIAU I'R DYFODOL

Mae ein hagwedd tuag at reoli risgiau yn syml ac ymarferol. Mae'r Pwyllgor Archwilio, dan awdurdod dirprwyedig gan y Bwrdd Llywodraethwyr, yn atebol am oruchwyllo effeithiolrwydd ein polisi a phrosesau rheoli risgiau, gan gynnwys adnabod y prif risgiau a'r risgiau newydd sy'n wynebu'r Coleg.

Caiff y Polisi Rheoli Risgiau ei adolygu a'i ddiwygio'n ffurfiol i sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd yn llwyr ag anghenion y Coleg a chyfrifoldebau llywodraethiant corfforaethol.

Mae ein proses rheoli risgiau yr un fath â'n model gweithredu, gyda phob deiliad cyllideb yn gyfrifol am adnabod, asesu a rheoli yn barhaus ei risgiau cyfredol a risgiau newydd. Yn y pendraw, caiff allbynnau'r asesiadau hyn eu cyfanredu i greu gweledigaeth gorfforaethol, gyffredinol o risg.

Mae'r broses hon yn cynnwys:



Yng ngoleuni effaith Covid-19 ac yn ogystal â'r risgiau corfforaethol safonol sydd wedi'u cynnwys yn ein cofrestr risgiau flynyddol, mae'r broses hon wedi adnabod nifer o risgiau **newydd** sy'n wynebu'r Coleg yn 2020/21 gyda mesurau lliniaru wedi'u monitro drwy ein hadroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.

RISGIAU NEWYDD 2020/21

Methu â diogelu dysgwyr a staff yn ddigonol rhag Covid-19 gan arwain at absenoldeb dysgwyr a staff, amhariad gweithredol ac yn y pendraw yn effeithio ar ganlyniadau dysgwyr, ac o bosibl yn achosi niwed i iechyd ariannol ac enw da.

Ansicrwydd ynghylch Cynlluniau'r Llywodraeth/Corff Dyfarnu ar gyfer asesiadau 2020/21, gan arwain at orbryder ymhlith dysgwyr a staff a all effeithio ar ganlyniadau dysgwyr yn gyffredinol

Effaith niweidiol ar ddargadwedd dysgwyr oherwydd bod mesurau Covid-19 yn effeithio ar ymgysylltiad dysgwyr, gan arwain at fwy o ddysgwyr yn gadael, a chael goblygiadau ariannol, canlyniadau is ac effaith negyddol ar enw da'r Coleg

Iechyd a llesiant staff a dysgwyr yn gwaethgu, gan gael effaith ar berfformiad a chanlyniadau

Mae diwygiad arfaethedig addysg a hyfforddiant ôl-ofordol (Hazelkorn) yn arwain at lais AB yn cael ei gysgodi gan lais AU, sydd yn y pendraw yn effeithio ar gyllid ac iechyd ariannol

Mae'r risgiau newydd hyn wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Coleg ar gyfer 2020/21 a byddant yn cael eu monitro, adrodd a'u diweddarau'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Nid yw pandemig Covid-19 wedi ein gadael ni a byddwn yn parhau i deimlo ei effaith am beth amser eto. Cadw ein dysgwyr a staff yn ddiogel a sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i gael y profiad gorau posibl yw ein prif flaenoriaeth a bydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a Chyrff Dyfarnu mewn perthynas ag arholiadau 2020/21.

Wedi dweud hynny, byddwn yn parhau i weithio ar ystod o flaenoriaethau ychwanegol, yn fewnol ac allanol, a fydd yn llywio cyfeiriad y Coleg i'r dyfodol, ei ystod o wasanaethau i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau a'i berthnasod â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- Dechreuasom yr adroddiad hwn drwy nodi sut mae pandemig Covid-19 wedi newid ein hagwedd at nifer o agweddau ar fywyd a gwaith. Mae wedi effeithio ar bob agwedd ar waith y Coleg ac mae angen i ni adolygu beth sydd wedi gweithio'n dda yn ein ffordd newydd o weithio.


Un o'n prif flaenoriaethau yn 2020/2021 fydd datblygu Cynllun Strategol newydd a fydd yn tynnu ar ein profiadau diweddar ac yn ail-osod ein cyfeiriad strategol. Caiff hyn ei gefnogi gan adolygiad ac adnewyddiad o'n holl ddogfennau strategol ategol allweddol.

- Mae partneriaeth y Coleg â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen i gyflawni Parth Dysgu Torfaen wedi parhau i fod yn gryf yn ystod cyfnod heriol. Mae'r prosiect, sydd dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac yn cael ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru, wedi'i oedi o ganlyniad i Covid-19 a bellach bydd yn agor i ddysgwyr ym mis Ionawr 2021. Ar hyn o bryd, mae'r dysgwyr yn astudio ar ein campws Pont-y-pŵl a fydd yn cau ddiwedd y flwyddyn. Rydym yn gweithio'n ddiflino ar bontio a chefnogi dysgwyr cyn symud i'r campws newydd.
- Mae'r bartneriaeth Aardal Wybodaeth Casnewydd gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn parhau, ac mae'r prosiect yn rhan bwysig o gynlluniau datblygiad ar gyfer y dyfodol y ddinas. Mae'r prosiect yn gwneud cynnydd cyson ac mae'r Coleg wedi ymgymryd â Chytundeb Partneriaeth Strategol i gyflawni'r prosiect drwy'r llwybr ariannu Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM), mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.
- Blaenoriaeth arall ar gyfer 2020/21 yw datblygu, gweithredu a mewnosod strategaeth Llesiant i ddysgwyr a staff. Rydym eisoes wedi penodi Swyddog Llesiant Coleg a fydd yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Ansawdd a Phrofiad Dysgwyr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol ar y strategaeth. Mae cynlluniau hefyd yn cynnwys gweithredu Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi lansio llwyfan cymorth ar-lein o'r enw TogetherAll sydd eisoes yn helpu dysgwyr a staff.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ein perthnasod â chyflogwyr ac yn flaenoriaeth wrth i ni symud ymlaen mae parhau i adeiladu ar y perthnasod hynny a chanolbwyntio ar ymglymiad cyflogwyr. Bydd hyn yn gwella'r profiad i ddysgwyr, yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng cwricwlwm a chyflogadwydd, gyda chyflogwyr yn cymryd mwy o ran yn nyluniad y cwricwlwm, profiad y dysgwyr a chynllunio sgiliau ar gyfer y dyfodol.

- Er ein bod wedi gwneud cynnydd da yn rhoi camau gweithredu allweddol ar waith, sydd wedi'u nodi yn ein cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae digwyddiadau dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys yr ymgyrchoedd Mae Bywydau Du o Bwys a'r ymwybyddiaeth a godwyd gan y rhain wedi pwysleisio i ni bod angen gwneud rhagor. Felly, rydym yn cynnal adolygiad llawn o'n dull gweithredu ac yn rhoi rhai camau gweithredu ar waith yn syth:-
 - Newid y dull gweithredu ac aelodaeth Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg
 - Adolygu a diweddarau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Byddwn yn parhau i chwarae rôl allweddol yn dylanwadu ar yr agenda sgiliau ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Pennaeth yn parhau i gynrychioli'r sector yn y fforwm allweddol hwn ac yn sicrhau bod llais Addysg Bellach ar y blaen o ran llywio'r comisiwn PCET (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol) newydd.

PERTHYNAS GYDA RHANDEILIAID

Mae'r Coleg wedi gweithio'n galed i sefydlu perthnasoedd cynhyrchol â rhanddeiliaid:




Cydnabyddwn fod ymgysylltu'n effeithiol â'n rhanddeiliaid yn allweddol i'n llwyddiant. Mae ymgysylltiad effeithiol yn ein helpu ni i ddeall go iawn anghenion ein rhanddeiliaid a chyd-fynd â nhw gyda'n nodau sefydliadau a datblygiad strategaeth. Drwy gydol yr adroddiad hwn ceir enghreifftiau o'n hymgysylltiad effeithiol â phartneriaid allweddol, ac ymfalchïwn yn y perthnasoedd cynhyrchol yr ydym wedi'u datblygu sydd o fudd i'n dysgwyr.


DATGANIAD Y CORFF LLYWODRAETHU AR REOLEIDD-DRA, PRIODOLDEB A CHYDYMFFURFIAETH Y COLEG AG AMODAU A THELERAU CYLLIDO GAN LYWODRAETH CYMRU.

Mae'r Gorfforaeth wedi ystyried ei chyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru o anghysondeb, amhriodoldeb ac anghydfurfiaeth briodol â thelerau ac amodau cyllid Llywodraeth Cymru, dan y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Cyllid sydd wedi'u sefydlu rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion y Memorandwm Ariannol a'r Amodau Cyllid.

Rydym yn cadarnhau nad ydym wedi darganfod unrhyw achos o anghysondeb, amhriodoldeb nag anghydfurfiaeth briodol mewn perthynas â chyllid hyd yn hyn. Os caiff unrhyw achosion eu hadnabod ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd y rhain yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru.


7/12/2020

Llofnod:-
Cadeirydd


Chief Executive
7/12/20

Llofnod:-
Pennaeth/Prif Weithredwr

DATGANIAD AR LYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Diben y datganiad hwn yw cynorthwyo darlennydd y cyfrifon i ddeall sut mae egwyddorion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU (i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector AB) wedi'u cymhwyso. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i arfer orau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac yn gweithredu gan roi sylw dyledus i God Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r Gorfforaeth hefyd wedi mabwysiadu a chydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau Cymru ac yn cynnal ei fusnes yn unol â saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, natur agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Ym marn y Llywodraethwyr, mae Coleg Gwent yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector addysg bellach, a'i fod wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020.

Mae'r Coleg yn elusen a eithrir o fewn Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr (sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011), yn cadarnhau eu bod wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos yn rhan arall o'r Adroddiad Blyneddol hwn.

Y Bwrdd Corfforaethol

Dangosir yr aelodau a wasanaethodd ar y Bwrdd Corfforaethol (Y Bwrdd) yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2020 yn y tabl ar dudalen 29.

Cyfrifoldeb y Bwrdd yw cymhwyso beirniadaeth annibynnol i faterion o natur addysgol, strategol, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad. Darperir y Bwrdd â gwybodaeth reolaidd ac amserol o berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall, megis perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol, materion ansawdd, cynigion gwariant cyfalaf a materion adnoddau dynol, gan gynnwys iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Yn ystod 2019/20 cafodd y Bwrdd chwe cyfarfod.

Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnal ei fusnes drwy is-bwylllograu ac mae wedi cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl ar gyfer pob un o'r rhain. Yn ystod 2019/20, roedd y pwyllgorau hyn fel a ganlyn:

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
- Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Pwyllgor Chwilio

Rhoddir agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol ar gyfer pob cyfarfod i Lywodraethwyr yn brydlon cyn pob cyfarfod ac mae'r holl bwyllgorau yn adrodd i'r Bwrdd drwy Adroddiadau Cadeirydd Pwyllgor rheolaidd, ffurfiol.

Gall pob Llywodraethwr ymgymryd â hyfforddiant mewn perthynas â'i gyfrifoldebau a chael mynediad at y Swyddog Llywodraethu, sy'n atebol i'r Gorfforaeth am sicrhau y cydymffurfio â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am benodi, gwerthuso a chael gwared ar y Swyddog Llywodraethu.

Mae gan y Bwrdd elfen anweithredol gref ac annibynnol ac mae'n ystyried bob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol oddi ar y rheolwyr ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn berthnasol arno yn defnyddio ei feirniadaeth annibynnol.

Mae rhaniad amlwg yn y cyfrifoldebau bod rolau'r Cadeirydd a'r Pennaeth/Prif Weithredwr ar wahân. Mae Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu'r Gorfforaeth yn adnabod yn glir y cyfrifoldebau na ellir eu dirprwyo ac mae'r holl Lywodraethwyr yn cydnabod y rhaniad rhwng rheoli a llywodraethu. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Amserlen Ddirprwyo sy'n cefnogi hyn drwy ddarparu eglurder a chysondeb i ddirprwyo'r broses gwneud penderfyniadau.

DATGANIAD AR LYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Enw	Dyddiad Penodi (A) Ymddiswyddo (R)	Cyfnod yn y swydd (Blyn yd doedd)	Statws	Pwyllgorau a wasanaethw yd*	Presenoldeb yn 2019/20
Mark Langshaw MBE Cadeirydd y Llywodraethwyr	01.08.2016 Ail-benodwyd 01.08.2019	3	Annibynnol	F,R,S	83%
Guy Lacey	01.08.2015	Amherth nasol	Pennaeth/ Prif Weithredwr	C,F,S	92%
Hilary Aldridge Is-gadeirydd y Llywodraethwyr	01.04.2018 05.11.2020 R	3	Annibynnol	C (Cadeirydd), R,S	92%
Hamed Amiri	01.04.2018	3	Annibynnol	A	80%
Susan Ball Is-gadeirydd y Llywodraethwyr (o 01.12.2020)	01.04.2018	3	Annibynnol	R,S (Cadeirydd)	78%
Anthony Basnett	01.01.2018	3	Annibynnol	F (Cadeirydd)	78%
Elizabeth Brimble	01.06.2019	3	Annibynnol	A	100%
100%	01.01.2020	1+ **	Myfyriwr (AB)	-	100%
Christopher Freegard	01.01.2020	3	Annibynnol	O	83%
Megan Grace	01.01.2020	1	Myfyriwr (AB)	M	100%
Darragh Hanley-Crofts	01.08.2017 Ail-benodwyd 01.08.2020	3	Annibynnol	O	89%
Sian Hughes	01.10.2015 Ail-benodwyd 01.10.2018	3	Staff	O	91%
Samantha Morgan	26.02.2020	1+ **	Myfyriwr (AU)	M	100%
Ray Morrison	01.08.2018	3	Annibynnol	A	80%
John Phelps	01.06.2019	3	Annibynnol	M	89%
Neil Phillpott	01.08.2018 A 10.09.2020 R	3	Annibynnol	-	0%
Matthew Preece	01.01.2020	3	Annibynnol	M	100%
Wendy Rogers	01.08.2018	3	Staff	M	78%
Denise Ryan	01.06.2019 A 09.12.2019 R	3	Annibynnol	-	0%
Elizabeth Swaffield	01.06.2017 Ail-benodwyd 01.06.2020	3	Annibynnol	M	89%

DATGANIAD AR LYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL A RHEOLAETH FEWNOL

Martin Veale	01.04.2015 Ail-benodwyd 01.05.2018	3	Annibynnol	A (Cadeirydd), R	100%
--------------	--	---	------------	------------------------	------

* A = Archwilio; C = Cwricwlwm ac Ansawdd; F = Cyllid ac Adnoddau; R = Taliadau Cyflog; S = Chwilio

**I sicrhau cynrychiolaeth barhaus gan ddysgwyr yn ystod o amhariadau yn sgil pandemig Covid-19, ymestynwyd dau benodiad Llywodraethwr Myfyriwr am flwyddyn ym mis Gorffennaf 2020.

Dyma'r Aelodau Allanol a wasanaethodd ar bwyllgorau'r Gorfforaeth dros y cyfnod:

Enw	Dyddiad penodi (A)/ Ail-benodi	Cyfnod yn y swydd (Blynnyd doedd)	Statws	Pwyllgorau a wasanaethw yd	Presenolde b yn 2019/20
Paul Davenport	01.12.2015 A Ail-benodwyd 01.12.2018	3	Annibynnol Allanol	A - Aelod Cyfetholedig Allanol	75%
Gareth Watts	01.11.2015 A Ail-benodwyd 01.12.2018	3	Annibynnol Allanol	A - Aelod Cyfetholedig Allanol	75%

Dyma'r Ystadegau Amrywiaeth ar gyfer y Bwrdd Corfforaethol:

Dangosydd Amrywiaeth	Gorffennaf 2020	Gorffennaf 2019	Gorffennaf 2018
Rhywedd	42% benyw	41% benyw	31% benyw
Ethnigrwydd	Cynrychiolaeth BAME o 5%	Cynrychiolaeth BAME o 6%	Cynrychiolaeth BAME o 8%
Anabledd	1 aelod gydag anabledd a ddatganwyd	1 aelod gydag anabledd a ddatganwyd	0 aelod gydag anabledd a ddatganwyd
Siaradwyr Cymraeg	1 Aelod	1 Aelod	1 Aelod

Mae'r Pwyllgor Chwilio yn adolygu'n rheolaidd sgiliau ac amrywiaeth ac yn cynghori'r Bwrdd ar faterion recriwtio gan gyfeirio at y data hwn. Yn y blynnyddoedd diwethaf, mae'r Gorfforaeth wedi ehangu'r ystod o ddulliau recriwtio a ddefnyddir i sicrhau ei fod yn cyrraedd cronfa ehangach o ymgeiswyr posibl. Yn rhan o hyn oedd cylchredeg manylion drwy'r rhwydwaith Chwarae Teg a thrwy Race Council Cymru, yn ogystal â nifer o gyrff a rhwydweithiau cyflogwyr, cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau recriwtio. Y prif ffocws wrth recriwtio bob amser yw cynnal cydbwysedd o ran sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n sicrhau bod y Bwrdd a'i bwyllgorau wedi'u cyfarparu i fodloni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn ymrwymedig i gefnogi ei nodau.

Penodiadau i'r Gorfforaeth

Mae pob penodiad newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'r Bwrdd cyfan. Mae'r Pwyllgor Chwilio yn gyfrifol am ddethol ac argymhell wrth benodi pob aelod newydd ac ni chaiff unrhyw benodiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd heb gyfeirio at gyngor ac argymhelliad y Pwyllgor Chwilio.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau y darperir hyfforddiant priodol i aelodau, yn seiliedig ar amrywiaeth o ddangosyddion, gan gynnwys arolwg sgiliau blynyddol sy'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Chwilio. Caiff anghenion hyfforddiant eu hystyried fel eitem flynyddol ar agendâu pwyllgorau hefyd.

Heblaw am y Pennaeth/Prif Weithredwr a'r tri Aelod Myfyrwyr, caiff Llywodraethwyr eu penodi am dymor o dair blynedd, ond mae'n bosibl eu hail-benodi i wasanaethu hyd at uchafswm o dri thymor, neu naw mlynedd. Mae Myfyrwyr Lywodraethwyr yn gwasanaethu tymor o un flwyddyn (ond gweler uchod yr estyniadau a ddefnyddiwyd i ymateb i bandemig Covid-19). Mae ail-benodi aelodau yn fater i'r Bwrdd cyfan ar argymhelliad y Pwyllgor Chwilio. Mae'r argymhelliad hwn yn seiliedig ar bresenoldeb, cyfraniad at waith y Bwrdd a'r angen i gynnal cydbwysedd priodol o ran sgiliau, arbenigedd a phrofiad.

PWYLLGORAU'R GORFFORAETH

Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

Sefydlwyd y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn dilyn adolygiad llywodraethu a 2019/20 oedd ei flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae'r pwyllgor yn monitro ac yn goruchwyllo perfformiad a datblygiadau allweddol ym maes ansawdd a chwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys Addysg Uwch, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn ogystal â phob darpariaeth rhan amser AB.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys wyth aelod, gan gynnwys y Llywodraethwr Staff Addysgu a dau Fyfyriwr Lywodraethwr (un AB ac un AU). Mae aelodau perthnasol o'r uwch dîm rheoli yn mynychu'r holl gyfarfodydd. Yn ystod 2019/20, cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith.

Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau

Sefydlwyd y pwyllgor Cyllid ac Adnoddau hefyd ar ôl yr adolygiad llywodraethu, a'i flwyddyn gyntaf o weithredu oedd 2019/20. Mae'r pwyllgor yn monitro ac yn cynghori'r Bwrdd ar berfformiad a datblygiadau allweddol yn ymwneud â chyllid, adnoddau dynol, TGCh ac Ystadau. Yn ogystal, mae'r pwyllgor yn monitro cynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr, megis Parth Dysgu Torfaen.

Ar y pwyllgor mae chwe aelod sy'n cynnwys y Llywodraethwr Staff Cefnogi Busnes a Chadeirydd y Gorfforaeth. Ni all yr un aelod o'r Pwyllgor Archwilio wasanaethu ar y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Cafodd y pwyllgor dri chyfarfod yn ystod 2019/20 a bu i aelodau perthnasol yr uwch dîm rheoli fynychu'r holl gyfarfodydd.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r pwyllgor cynghori yn cynnwys pedwar Llywodraethwr annibynnol, gan gynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Fel arfer, mae'r pwyllgor yn cael un cyfarfod yn unig y flwyddyn i ystyried ac i wneud argymhellion i'r Bwrdd Corfforaethol mewn perthynas â chyflogau ac amodau a thelerau yn ymwneud â'r pedwar deiliad swyddi uwch - y Pennaeth, dau Is-bennaeth a'r Swyddog Llywodraethu. Mae gwybodaeth berthnasol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol deiliaid swyddi uwch ar gael yn Nodyn 7 y datganiadau ariannol.

Cyfarfu'r pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 ac wedi hynny cymeradwyodd y Bwrdd wobwr tâl yn gysylltiedig â'r flwyddyn academiaidd flaenorol. O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu i'r pwyllgor ohirio ei gyfarfod nesaf. Disgwylir penderfyniad ynghylch y dyfarniad tâl ar gyfer 2019/20 gan y Bwrdd yn ei gyfarfod mis Rhagfyr.

Pwyllgor Chwilio

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pum Llywodraethwr, a'u pwrpas yw cynghori'r Bwrdd ar faterion yn ymwneud ag aelodaeth. Mae hyn yn cynnwys goruchwyllo'r broses recriwtio a chynghori'r Bwrdd ar benodi neu ail-benodi aelodau i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Chwilio hefyd yn monitro data presenoldeb, amrywiaeth a sgiliau a dyddiadau penodi i gynghori ar gynlluniau olyniaeth y Gorfforaeth. Yn ystod 2019/20, cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith.

Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys pedwar Llywodraethwr a dau aelod allanol i'r Gorfforaeth. Nid yw'r aelodaeth yn cynnwys y Pennaeth a Chadeirydd nag unrhyw staff uwch sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol. Yn ogystal, ni all aelodau'r pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wasanaethu ar y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Pennaeth a'r Is-bennaeth (Adnoddau a Chynllunio) yn mynychu'r holl gyfarfodydd drwy wahoddiad, ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae'r pwyllgor yn gweithredu yn unol â chylch gorchwyl ysgrifenedig wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd sy'n adlewyrchu gofynion y Memorandwm o Ddealltwriaeth Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Cholegau AB.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cwrdd o leiaf unwaith bob tymor a chawsant bedwar cyfarfod yn 2019/20. Mae cyfarfodydd y pwyllgor yn rhoi fforwm ar gyfer adrodd gan archwilwyr mewnol ac allanol y Coleg ac mae gan y ddau gyfuniad o archwilwyr fynediad uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor. Mae trafodaethau preifat, heb reolwyr y Coleg yn bresennol, yn cael eu cynnal rhwng yr archwilwyr a'r pwyllgor yn flynyddol o leiaf. Mae'r pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cymru gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn monitro'r systemau rheolaeth mewnol, rheolyddion rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun cytunedig ac yn adrodd eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio cytunedig ac mae archwilwyr mewnol y Coleg yn ymgymryd ag adolygiadau dilynol bob hyn a hyn i sicrhau bod yr holl argymhellion wedi'u gweithredu.

Mae gan y Coleg fframwaith rheoli risg cadarn sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio. Caiff Cofrestr Risgiau'r Gorfforaeth ei chymeradwyo gan y Bwrdd ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn adolygu diweddariad risg ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynghori'r Bwrdd Corfforaethol ar benodi archwilwyr mewnol ac allanol a'u cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer gwaith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio. Cafodd PwC ei ail-benodi fel archwilwyr allanol y Coleg ar contract tair blynedd o 2017 a dyfarnwyd TIAA â chontract dwy flynedd fel archwilwyr mewnol o fis Awst 2018 gydag opsiynau i ymestyn eu contract o 2 flynedd yn ychwanegol. Dyfarnwyd pob contract drwy ymarfer tendro priodol.

Rheolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Yn y pendraw, y Bwrdd sy'n gyfrifol am system rheolaeth fewnol y Coleg ac am adolygu ei effeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i dylunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a gall ddarparu sicrwydd rhesymol yn hytrach nag absoliwt yn erbyn camddatgan neu golli deunydd.

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb bob dydd am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol i'r Pennaeth/Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol. Rhaid iddo sicrhau bod y system reoli yn cefnogi i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Coleg, gan ddiogelu hefyd y cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'n gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau y neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Coleg Gwent. Mae hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Gorfforaeth yn brydlon unrhyw wendid neu fethiant perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly gall roi sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach nag absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses gyfredol sydd wedi'i dylunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Coleg, gwerthuso tebygolïaeth y risgiau hynny'n digwydd go iawn a'u heffaith petai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod mewn lle yn Coleg Gwent ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a chyfrifon blyneddol.

Capasiti i ymdrin â risg

Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r risgiau allweddol y mae'r Coleg wedi'i amlygu iddynt gyda'r rheolyddion gweithredu, ariannol a chydymffurfiaeth sydd wedi'u gweithredu i liniaru'r risgiau hynny. Barn y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020, yw bod proses gyfredol ffurfiol, briodol wedi bod ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol y Coleg. Mae hyn yn cynnwys risgiau newydd a risgiau nas gwelwyd hwy o'r blaen sydd wedi codi yn 2019/20 o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Systemau cyllidebu cynhwysfawr sydd â chyllideb flynyddol a gaiff ei hadolygu a'i chytuno gan y corff llywodraethu
- Adolygiadau rheolaidd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau o adroddiadau ariannol cyfnodol a blyneddol, sy'n dangos perfformiad ariannol y Coleg a'i gydrannau yn erbyn rhagolygon

- Gosod targedau i fesur perfformiad ariannol ac eraill
- Mae Grŵp Monitro Coleg yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chytuno camau gweithredu adferol pryd bynnag mae angen
- Canllawiau rheoli buddsoddiad cyfalaf clir
- Mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, pryd bynnag sy'n briodol
- Adroddiadau ar gynnydd o ran monitro risg, yn seiliedig ar y gofrestr risgiau, yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob un o'i gyfarfodydd

Mae gan Coleg Gwent wasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r sefydliad yn cael ei amlygu iddynt, ac mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cefnogi gan y Bwrdd yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Archwiliwr Mewnol yn darparu'r Bwrdd ag adroddiad ar weithgareddau archwilio mewnol yn y Coleg, a hynny'n flynyddol o leiaf Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr archwiliwr mewnol ynghylch manwl gywirdeb ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, rheolyddion a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Atebol, cyfrifoldeb y Pennaeth/Prif Weithredwr yw adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar:

- waith yr archwilwyr mewnol
- gwaith aelodau eraill Tîm Rheolaeth Gorfforaethol y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol
- sylwadau gan archwilwyr allanol y Sefydliad ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli a'u hadroddiadau eraill.

Mae'r Pennaeth wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwyllo gwaith yr archwiliwr mewnol a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod gwelliant parhaus y system wedi'i sefydlu.

Mae'r Tîm Rheolaeth Corfforaethol yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risgiau allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddygir at eu sylw drwy fecanweithiau rhybuddion cynnar, sydd wedi'u mewnosod yn yr adrannau a'u cryfhau gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd gan archwiliadau mewnol, sy'n cynnwys argymhellion am welliannau. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae agenda'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys eitem reolaidd i ystyried risg a rheolaeth. Mae'r pwyslais ar gael y radd berthnasol o

Cwmni sy'n parhau

Ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol, mae'r Gorfforaeth yn credu bod gan y Coleg yr adnoddau priodol i barhau i fodoli'n weithredol hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwn mae'n parhau i fabwysiadu'r statws cwmni sy'n parhau wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol.

1600 London
07/12/2020

**Llofnod:-
Cadeirydd**

W. A. W. W.
Chief Executive
7/12/20

Llofnod:-
Pennaeth/Prif Weithredwr

DATGANIAD AR GYFRIFOLDEBAU AELODAU'R GORFFORAETH

Mae'n ofynnol i aelodau'r Gorfforaeth gyflwyno datganiad ariannol wedi'i archwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn amodau a thelerau'r Memorandwm Ariannol a'r Amodau Cyllid rhwng Llywodraeth Cymru a Chorfforaeth y Coleg, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth, drwy ei Swyddog Atebol, baratoi Datganiadau Ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â *Datganiad o'r Arfer Argymelledig - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015* a *Chyfarwyddyd Cyfrifon y Coleg 2019 hyd at 2020* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac sy'n rhoi safbwynt clir a theg o gyflwr materion y Coleg a'r canlyniad ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth:

- ddewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- nodi a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wriad o'r arfer yn cael ei ddatgelu a'i egluro yn y datganiadau ariannol;
- paratoi datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Coleg yn parhau i weithredu.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Gorfforaeth baratoi adroddiad sy'n disgrifio yr hyn mae wedi'i wneud, yr hyn mae'n ceisio ei wneud a sut mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.



Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol y Coleg ar unrhyw bryd, ac sy'n ei galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r deddfwriaethau perthnasol o ran corffori a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddi er mwyn diogelu asedau'r Coleg ac atal ac adnabod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill. Cyfrifoldeb y Gorfforaeth a'r Coleg yw cynnal a chadw a gonestrwydd gwefan y Coleg; nid yw'r gwaith a gynhaliwyd gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli gwaith paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaethau awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu cymhwyso ar y dibenion bwriadedig a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio'n unig yn unol â'r Memorandwm Ariannol ac Amodau Cyllid gyda Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill a all gael eu cyflwyno o bryd i'w gilydd. Rhaid i aelodau'r Gorfforaeth sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheolaeth priodol wedi'u sefydlu er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill i sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae aelodau'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg, fel nad yw buddion a ddylid eu cyflwyno wrth ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru yn cael eu rhoi mewn risg.

Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae aelodau a oedd yn ddeiliaid swyddi ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes gwybodaeth berthnasol i archwiliad nad yw archwilwyr y Coleg yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd gan aelodau'r Gorfforaeth ar 1 Rhagfyr 2020 ac fe lofnodwyd ar ei rhan gan:

Llofnod:-

Cadeirydd y Llywodraethwyr

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFFORAETH COLEG GWENT (Y 'SEFYDLIAD')

Adroddiad ar archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol grŵp Coleg Gwent a datganiadau ariannol ei riant-sefydliad (y "datganiadau ariannol"):

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y grŵp a'r rhiant-sefydliad fel yr oeddynt ar 31 Gorffennaf 2020, ac incwm a gwariant a llifau arian y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, yn cwmpasu FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon", a chyfraith berthnasol);
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion y Datganiad o Arfer Argymelledig - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynnyddol (yr "Adroddiad Blynnyddol"), sy'n cwmpasu'r Mantolenni cyfunol a'r rhai ar gyfer y rhiant-sefydliad fel yr oeddynt ar 31 Gorffennaf 2020; y Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr cyfunol ac ar gyfer y rhiant-sefydliad fel yr oeddynt y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiadau o Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn cyfunol ac ar gyfer y rhiant-sefydliad fel yr oeddynt y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Datganiadau o Lifoedd Arian cyfunol fel yr oeddynt y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; y Polisiâu Cyfrifyddu; a'r nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu arwyddocaol ac unrhyw wybodaeth eglurhaol arall.

Sail y farn

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol ein hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

Annibyniaeth

Gwnaethom barhau i fod yn annibynnol oddi ar y grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y FRC, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau sy'n gysylltiedig â chwmni sy'n parhau

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni adrodd arnynt i chi pan:

- mae defnydd y Gorfforaeth o gyfrifon cwmni sy'n parhau i baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nad yw'r Gorfforaeth wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a adnabuwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r sefydliad a'r rhiant-sefydliad i barhau i fabwysiadu'r sail cwmni sy'n parhau am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Wedi dweud hynny, gan na ellir rhagweld digwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn gwarantu gallu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau fel cwmni parhaus.

Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilwyr ar hynny. Y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi unrhyw farn archwilio nag unrhyw fath o sicrwydd ar hynny.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu fod ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i cham-ddatgan mewn modd perthnasol. Os ydym yn adnabod anghysondebau perthnasol neu gam-ddatgan perthnasol amlwg, mae'n ofynnol i ni gynnal gweithdrefnau i bennu a oes cam-ddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol neu gam-ddatgan perthnasol o'r wybodaeth arall. Os, ar sail y gwaith yr ydym wedi'i wneud, y byddwn yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan perthnasol yn y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar hynny. Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r cyfrifoldebau hyn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Gorfforaeth am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth ar dudalen 29, y Gorfforaeth sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn gywir a theg. Mae'r Gorfforaeth hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r fath fel y mae'n pennu'n hanfodol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatgan perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am asesu gallu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad i barhau fel cwmni sy'n parhau, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â chwmni sy'n parhau a defnyddio'r cyfrifon cwmni sy'n parhau oni bai bod y Gorfforaeth naill ai'n bwriadu diddymu'r grŵp a'r rhiant-sefydliad neu beidio gweithrediadau, neu os nad oes dewis realistig arall heblaw am wneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd ar lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn ôl Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob tro pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol, os gallant, yn unigol neu ar y cyd, gael eu disgwyl i ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Defnydd o'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn, gan gynnwys y barnau, wedi'i baratoi ar gyfer Corfforaeth y sefydliad yn unig fel corff yn unol ag Erthygl 18 erthyglau rheoli'r sefydliad ac at ddim diben arall. Wrth roi'r barnau hyn, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw unigolyn arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a ddaw i ddwylo unigolyn o'r fath pan roddwn ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Adroddiadau Gofynnol Eraill**Barnau ar faterion eraill a nodir yn y Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.**

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- b arian sydd wedi'i wario o grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid arall o ba bynnag ffynhonnell wedi'u gweinyddu gan y Sefydliad at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac, os yn berthnasol, eu rheoli yn unol â phob deddfwriaeth berthnasol; ac
- mae'r incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd
[XX] Rhagfyr 2020

Datganiad ar Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020

INCWM	Nodyn	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Grantiau Llywodraeth Cymru	2	53,201	53,201	48,880	48,880
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	4,197	4,197	4,391	4,391
Grantiau a chontractau eraill	4	2,168	2,168	1,722	1,722
Incwm arall	5	3,403	3,403	4,306	3,401
Incwm buddsoddiad	6	52	52	68	67
Cyfanswm Incwm		63,021	63,021	59,367	58,461
GWARIANT					
Costau staff	7	42,296	42,296	40,208	39,065
Costau ail-strwythuro staff	7	63	63	1,194	1,036
Treuliau gweithredu eraill	8	14,172	14,293	14,741	15,548
Dibrisiad	10	5,029	5,029	4,892	4,892
Costau llog a chyllid eraill	9	1,012	1,012	985	983
Cyfanswm Gwariant		62,572	62,694	62,020	61,524
Gwarged/(Diffyg) cyn eitemau eithriadol		1,134	1,134	(539)	(65)
Dibrisiant carlam Campws Pont-y-Pŵl		(1,059)	(1,059)	(1,598)	(1,598)
Amhariad ar fenthyciad Coleg Gwent Training Ltd			(122)	-	(1,042)
Rhyddhau DCG Campws Pont-y-pŵl		437	437	678	678
Ailstrwythuro staff eithriadol		(63)	(63)	(1,194)	(1,036)
Gwarged/(Diffyg) cyn enillion a cholledion eraill		449	327	(2,653)	(3,063)
Enillion gwaredu ar asedau	11	10	10	27	27
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn		459	337	(2,626)	(3,036)
Colled actiwaraid mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	22	(13,100)	(13,100)	(9,520)	(9,425)
Gostyngiad mewn asedau gwaddol		(0)	(0)	(1)	(1)
Cyfanswm Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn (y cwbl yn anghyfyngedig)		(12,641)	(12,763)	(12,147)	(12,462)

Datganiad ar newidiadau mewn arian wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020

GRŴP	Cyfrif incwm a gwariant £'000	Arian Wrth Gefn Cyfyngedig £'000	Cronfa ailbrizio £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Awst 2018	(6,474)	65	5,054	(1,355)
Diffyg ar gyfer y flwyddyn	(2,626)	-	-	(2,626)
Gostyngiad mewn asedau gwaddol	-	(1)	-	(1)
Incwm cynhwysfawr arall	(9,520)	-	-	(9,520)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbrizio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	62	-	(62)	-
Balans ar 31 Gorffennaf 2019	(18,558)	64	4,992	(13,502)
Addasiad Balans Agoriadol				
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	459	-	-	459
Gostyngiad mewn asedau gwaddol	-	-	-	-
Incwm cynhwysfawr arall	(13,100)	-	-	(13,100)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbrizio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	62	-	(62)	-
	(12,579)	(0)	(62)	(12,641)
Balans ar 31 Gorffennaf 2020	(31,137)	64	4,930	(26,143)

COLEG	Cyfrif incwm a gwariant £'000	Arian Wrth Gefn Cyfyngedig £'000	Cronfa ailbrizio £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Awst 2018	(6,037)	65	5,054	(918)
Diffyg ar gyfer y flwyddyn	(3,036)	-	-	(3,036)
Gostyngiad mewn asedau gwaddol	-	(1)	-	(1)
Incwm cynhwysfawr arall	(9,425)	-	-	(9,425)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbrizio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	62	-	(62)	-
Balans ar 31 Gorffennaf 2019	(18,436)	64	4,992	(13,380)
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	337	-	-	337
Gostyngiad mewn asedau gwaddol	-	-	-	(0)
Incwm cynhwysfawr arall	(13,100)	-	-	(13,100)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbrizio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn	62	-	(62)	-
	(12,701)	(0)	(62)	(12,763)

Balans ar 31 Gorffennaf 2020

(31,137)	64	4,930	(26,143)

Cyfriflenni ar 31 Gorffennaf 2020

	Nodyn	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Asedau anghyfredol					
Asedau gosodedig diriaethol	10	60,416	60,416	61,198	61,198
Buddsoddiadau		2	2	2	2
Morgais gwaddol	12	64	64	64	64
		60,482	60,482	61,264	61,264
Asedau Cyfredol					
Stociau	13	3	3	2	2
Masnach a derbyniadwyon eraill	14	3,085	3,085	1,798	1,754
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	19	14,862	14,862	11,797	11,688
		17,950	17,950	13,597	13,444
Tynnu credydwy - symiau sy'n daladwy cyn pen blwyddyn	15	(8,811)	(8,811)	(8,335)	(8,254)
Asedau Cyfredol Net		9,139	9,139	5,262	5,190
Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaeth gyfredol		69,621	69,621	66,526	66,454
Credydwy - symiau yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn	16	(35,939)	(35,939)	(37,137)	(37,137)
Asedau net cyn darpariaethau		33,682	33,682	29,389	29,317
Darpariaethau					
Rhwymedigaethau pensynau buddion wedi eu diffinio	22	(56,982)	(56,982)	(40,575)	40,381
Darpariaethau eraill	18	(2,843)	(2,843)	2,316	2,316
		(59,825)	(59,825)	(42,891)	(42,697)
Rhwymedigaeth Net		(26,143)	(26,143)	(13,502)	(13,380)
Arian Wrth Gefn Cyfyngedig					
Cronfa incwm a gwariant wrth gefn - cronfa waddol		64	64	64	64
Arian Wrth Gefn Anghyfyngedig					
Cyfrif incwm a gwariant		(31,137)	(31,137)	(18,558)	(18,436)
Cronfa ailbriso		4,930	4,930	4,992	4,992
Cyfanswm wrth gefn		(26,207)	(26,207)	(13,566)	(13,444)
Cyfanswm wrth gefn		(26,143)	(26,143)	(13,502)	(13,380)

Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar dudalennau 39 i 64 gan y Gorfforaeth ar **1 Rhagfyr 2020** ac fe lofnodwyd ar ei rhan gan

.....
Mr M. Langshaw MBE
Cadeirydd

.....
Mr G O Lacey
Pennaeth/Prif Weithredwr

.....
Mrs L Astell
Is-bennaeth

Datganiad Cyfunol ar lif arian am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

	2020 £'000	2019 £'000
<i>Llif arian parod o weithgareddau gweithredol</i>		
Gwarged/(Diffyg) ar gyfer y flwyddyn	459	(2,626)
<i>Addasiad ar gyfer eitemau heb fod yn ariannol</i>		
Dibrisiad	5,029	4,892
Cynnydd mewn stoc	(1)	-
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	(1,287)	300
Gostyngiad mewn credydwyr yn ddyledus cyn pen blwyddyn	476	506
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn gwaddolion	-	(1)
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn darpariaethau	527	59
Costau pensiwn ar ôl tynnu cyfraniadau yn daladwy	2,442	1,798
Datganiad grant cyfalaf gohiriedig	(1,338)	(2,707)
<i>Addasiad ar gyfer buddsoddi neu weithgareddau cyllido</i>		
Incwm buddsoddiad	(52)	68
Llog yn daladwy	1,012	985
Elw ar werthu asedau gosodedig	(10)	(27)
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	7,257	2,993
<i>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</i>		
Elw ar werthu asedau gosodedig	10	27
Incwm buddsoddiad	52	68
Taliadau a wnaed i gaffael asedau gosodedig	(4,247)	(3,401)
Grant gohiriedig a dderbyniwyd	550	480
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	3,635	2,826
<i>Llif arian o weithgareddau ariannu</i>		
Llog a dalwyd	(147)	(159)
Ad-dali symiau a fenthyciwyd	(410)	(685)
Llif arian o weithgareddau ariannu	(557)	(844)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn y flwyddyn	3,065	(677)
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn	11,797	12,474
Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	14,862	11,797

1. DATGANIAD AR BOLISIÂU CYFRIFYDDU A THECHNEGAI AMCANGYFRIF

Mae'r polisiâu cyfrifyddu canlynol wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r *Datganiad o Arfer Argymelledig: Cyfrifo ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2015* (2015 FE HE SORP), *Canllaw Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru* ac yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 - "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid budd y cyhoedd ac felly wedi cymhwyso gofynion budd cyhoedd perthnasol FRS 102.

Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel yr addaswyd wrth ailbrisio asedau gosodedig penodol.

Sail cyfnerthu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u cyfnerthu yn cynnwys y Coleg a'i is-gwmni, Coleg Gwent Training Ltd sy'n cael ei reoli gan y Grŵp. Ildiodd Coleg Gwent Training Ltd ar 31 Gorffennaf 2019 a bydd yn cael ei ddiddymu fis Ebrill 2021. Cyflawnir rheolaeth lle bynnag mae gan y Grŵp y grym i reoli polisiâu ariannol a gweithredol endid er mwyn ceisio buddion o'i weithgareddau. Dan y dull prynu cyfrifyddu, mae canlyniadau ymrwymadau is-gwmni ac ymrwymadau cysylltiedig sy'n cael eu caffael neu eu dileu yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant cyfnerthedig o, neu, hyd at y dyddiad y mae rheolaeth yr ymrwymiad yn pasio. Caiff gwerthiannau ac elw rhyng-grŵp eu dileu'n llawn wrth gyfnerthu. Yn unol â FRS 102, nid yw gweithgareddau'r undeb myfyrwyr wedi'u cyfnerthu oherwydd nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Cwmni sy'n Parhau

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adroddiad Aelodau. Mae sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, gwybodaeth diddymu a benthyciadau wedi'u cyflwyno yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig. Yn wahanol i sefydliadau eraill, nid yw sefyllfa ariannol y Coleg wedi'i effeithio gan Covid-19 gan fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n gyflym i ddiogelu incwm a chefnogi'r sector.

Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg £4.5m o fenthyciadau yn daladwy gyda bancwyr ar delerau a drafodwyd ar wahanol ddyddiadau. Mae rhagolygon a rhagamcaniadau ariannol y Coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol a chyfamodau am y dyfodol rhagweladwy.

Yn unol â hynny, mae gan y Coleg ddisgwyliad rhesymol bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy, ac am y rheswm hwn, bydd yn parhau i fod yn gwmni sy'n parhau wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

Cydnabyddiaeth o incwm

Mae grantiau refeniw gan y llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gorff ariannu a grantiau eraill sy'n cael eu cyfrif dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau rheolaidd gan gorff ariannu eu mesur yn unol ag amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod maent yn dderbyniadwy ac yn dibynnu ar y llif incwm penodol sydd ynghlwm â nhw. Fel rheol, caiff yr incwm grant terfynol ei bennu pan ddaw proses cysoni ar ddiwedd y flwyddyn i ben gyda'r corff ariannu a chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllid.

Mae'r grant rheolaidd gan Lywodraeth Cymru yn cynrychioli'r dyraniadau cyllid sydd wedi'u priodoli i'r flwyddyn ariannol bresennol a chaiff ei gredydu'n uniongyrchol i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Caiff grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) gan ffynonellau anllywodraethol eu cydnabod fel incwm pan mae'r Coleg yn gymwys am yr incwm ac mae'r amodau yn ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r amodau cysylltiedig â pherfformiad gael eu bodloni ei gydnabod fel incwm wedi'i ohirio o fewn credydwy'r ar y fantolen a'i ddatgan yn incwm fel mae'r amodau'n cael eu bodloni.

Cyllid grant cyfalaf

Caiff grantiau cyfalaf y Llywodraeth eu cyfalafu, eu cadw fel incwm wedi'i ohirio a'u cydnabod fel incwm dros fywyd defnyddiol disgwylidig yr ased, dan y model cronni fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau eraill o ffynonellau anllywodraethol eu cydnabod fel incwm pan mae'r Coleg yn gymwys am y cyllid yn amodol ar unrhyw amodau yn ymwneud â pherfformiad yn cael eu bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn i'r amodau cysylltiedig â pherfformiad gael eu bodloni ei gydnabod fel incwm wedi'i ohirio o fewn credydwy'r ar y Fantolen a'i ddatgan yn incwm fel mae'r amodau'n cael eu bodloni.

Incwm ffi

Nodir incwm o ffioedd dysgu yn gros o unrhyw wariant nad yw'n ostyngiad a chaiff ei gydnabod yn y cyfnod y caiff ei dderbyn.

Incwm buddsoddiad

Caiff pob incwm o flaendaliadau tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod yr enillir ef ar sail dderbyniadwy.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu cronfeydd cymorth dewisol penodol. Mae taliadau cysylltiedig a geir gan y cyrff cyllid a threuliau dilynol i fyfyrwyr eu heithrio o incwm a gwariant y Coleg lle mae'r Coleg yn cael ei amlygu i risg isel iawn neu'n cael budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Cyfrif am fuddion ôl-gyflogaeth

Caiff buddion ôl-gyflogaeth i gyflogaeth y Coleg eu darparu'n bennaf gan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Cynlluniau buddiannau wedi'u diffinio yw'r rhain, sy'n cael eu hariannu'n allanol a'u contractio allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth.

Mae'r TPS yn gynllun heb ei ariannu. Caiff cyfrifiadau i'r CPA eu cyfrifo er mwyn lledaenu cost pensiynau dros fywyd gwaith cyflogaeth gyda'r Coleg mewn modd y mae'r cost pensiwn yn ganran lefel sylweddol o'r gyflogres bensiynadwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu pennu gan actiwariaid cymwys ar sail prisiau gan ddefnyddio dull budd

arfaethedig. Mae'r CPA yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'r Coleg yn gallu adnabod ei gyfran o'r asedau sylfaenol a rhwymedigaeth y cynllun yn gyson a rhesymol. Felly, caiff y CPA ei drin fel cynllun cyfraniad diffiniedig a'r cyfraniadau'n cael eu cydnabod fel traul yn y datganiad incwm yn y cyfnod y caiff y gwasanaethau eu darparu gan gyflogaeth.

Mae'r LGPS yn gynllun wedi'i ariannu. Caiff asedau'r LGPS eu mesur gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau LGPS gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu credydau unedau a'u disgowntio ar y gyfradd adenillion gyfredol ar fond corfforaethol ansawdd uchel sydd â thymor ac arian cyfred cyfwerth â'r rhwymedigaeth. Caiff prisiau'r actiwari eu caffael o leiaf bob tair blynedd a'u diweddarau ym mhob mantolen. Y symiau a nodir fel gwarged gweithredu yw costau cyfredol y gwasanaeth a chostau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, taliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff fel costau a achoswyd. Caiff llog net ar y rhwymedigaeth/ased buddiant diffiniedig net hefyd ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cwmpasu cost y llog ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'u cyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ariannol â'r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r adenillion ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod yn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

Mae enillion a cholledion actwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

Buddion cyflogaeth tymor byr

Mae buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol (tâl gwyliau) eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogaeth yn darparu gwasanaeth i'r Coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Coleg ei dalu o ganlyniad i'r hawl heb ei defnyddio.

Pensiynau Uwch

Caiff y gost wirioneddol o unrhyw bensiwn uwch cyfredol i gyn-aelod o staff ei dalu gan y Coleg bob blwyddyn. Caiff amcan o gost ddisgwyliedig y dyfodol o unrhyw godiad i bensiwn cyfredol cyn-aelod o staff ei godi'n llawn i SOCI y Coleg yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl i'r darpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiwn uwch a ddarperir gan gyrff ariannu.

Asedau anghyfredol - Asedau gosodedig diriaethol

Nodir asedau gosodedig diriaethol fel cost ar ôl tynnu'r dibrisiad cronedig a cholledion diffyg cronedig. Mae eitemau penodol o asedau gosodedig wedi'u hail-brisio i werth teg ar neu cyn dyddiad trosglwyddo i'r FE HE SORP 2015, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ail-brisio ar ddyddiad yr ail-brisio hwnnw.

Tir ac adeiladau

Mae adeiladau rhydd-ddaliadol yn dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig, fel a ganlyn:

- Adeiladau a gaffaelwyd cyn mis Awst 2002 - 25 mlynedd
- Adeiladau a gaffaelwyd ar ôl mis Awst 2002 - 50 mlynedd
- Gwaith ailwampio - 10 mlynedd

Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio.

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwyliedig i'r Coleg o rhwng 25 a 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi o ddibrisio addasiadau sylweddol i adeiladau dros gyfnod eu bywyd economaidd defnyddiol o rhwng 25 a 50 mlynedd.

Lle caiff tir ac adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel yr uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig a'u datgan yn y cyfrif incwm a gwariant dros fywyd economaidd defnyddiol disgwyliedig yr ased cysylltiedig ar sail systematig yn gyson â'r polisi dibrisio. Caiff yr incwm gohiriedig ei ddyrannu rhwng credydwy'r sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn a'r rheiny sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

Cynhelir adolygiad ar gyfer diffyg ar ased gosodedig os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd cario swm unrhyw ased gosodedig yn adferadwy.

Wrth fabwysiadu FRS 102, dilynodd y Coleg y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth tir ac adeiladu ar y llyfrau, a gafodd eu hailbrisio yn 1993 wrth gorffori, fel cost dybiedig ond i beidio â mabwysiadu polisi o ailbrisiadau'r eiddo hyn yn y dyfodol.

Asedau'n cael eu hadeiladu

Caiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu cyfrif ar gost yn seiliedig ar werth tystysgrifau'r pensaer a chostau uniongyrchol eraill, a achoswyd hyd at 31 Gorffennaf. Ni chânt eu dibrisio nes y dechreuir eu defnyddio.

Gwariant dilynol ar asedau gosodedig cyfredol

Lle achosir gwariant sylweddol ar asedau gosodedig diriaethol ar ôl y pryniant cychwynnol, caiff ei godi i'r SOCI yn y flwyddyn ariannol y'i hachoswyd, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y Coleg yn y dyfodol, ac os hynny, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel sy'n berthnasol.

Offer

Cydnabyddir offer sy'n costio llai na £5,000 fesul eitem unigol fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y caiff ei gaffael. Caiff pob offer arall ei gyfalafu ar gost.

Dibrisir offer wedi'i gyfalafu ar sail llinell syth dros ei fywyd economaidd defnyddiol, fel a ganlyn:

- | | |
|-----------------------|-----------|
| • offer technegol | 5 mlynedd |
| • cerbydau modur | 5 mlynedd |
| • offer cyfrifiadurol | 4 mlynedd |

- dodrefn, gosodiadau a ffitiadau 10 mlynedd

Costau benthycu

Caiff costau benthycu eu cydnabod fel gwariant yn y flwyddyn ariannol y cânt eu hachosi.

Asedau ar brydles

Caiff costau mewn perthynas â gweithredu prydles eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff unrhyw breimymau neu fentrau sy'n gysylltiedig â phrydles sy'n cael eu llofnodi ar ôl 1 Awst 2014 eu lledaenu dros leiafswm tymor y brydles.

Caiff trefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo i'r Coleg yn sylweddol, yr holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased eu trin fel prydles cyllid.

Mae asedau a gedwir dan brydles cyllid eu cydnabod i ddechrau fel gwerth teg yr ased ar brydles (neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm y taliadau prydles) ar ddechrau'r brydles. Mae'r atebolrwydd cyfatebol i'r prydleswr wedi'i gynnwys yn y fantolen fel rhwymedigaeth prydles cyllid. Mae asedau a gedwir dan

brydles cyllid yn cael eu cynnwys yn asedau gosodedig diriaethol a'u dibrisio a'u hasesu am golledion diffyg yn yr un modd ag asedion y perchnogir.

Caiff isafswm taliadau prydles eu rhannu rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae'r taliadau cyllid yn cael eu dyrannu dros gyfnod y brydles, yn unol â'r elfen cyfalaf sy'n weddill.

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Cyfrifir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar gost ar ôl tynnu'r diffyg yn y datganiadau ariannol unigol.

Arian a chyfwerth ag arian

Mae arian yn cynnwys arian i law, blaendaliadau sy'n daladwy ar alw a gorddrafft. Mae cyfwerth ag arian yn fuddsoddiadau tymor byr, hynod rydd sy'n rhwydd eu trosi'n symiau o arian parod gyda risg isel o newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn cymhwyso fel un sydd gyfwerth ag arian pan mae'n hŷn na 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael.

Rhwymedigaethau ac ecwiti ariannol

Mae rhwymedigaethau ac ecwiti ariannol yn cael eu dosbarthu yn ôl sylwedd rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mae pob benthyciad, buddsoddiad a blaendal tymor byr a gedwir gan y Coleg yn cael eu dosbarthu fel offer ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. I ddechrau, caiff yr offer hyn eu cofnodi ar y pris trafod ar ôl tynnu unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol i offer ariannol sylfaenol gael eu mesur eto ar gost amorteiddio.

Treth

Credir y bydd y Coleg yn llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni diffiniad cwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Yn unol â hynny, mae'n bosibl bod y Coleg wedi'i eithrio rhag gorfod talu treth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn categorïau yr ymdrinnir â nhw yn adrannau 478-488 Deddf y Dreth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff incwm neu enillion o'r fath eu cymhwyso'n arbennig ar ddibenion elusennol.

Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol mewn perthynas â Threth ar Werth, felly gall adennill oddeutu 6.2% yn unig (hawl TAW diwethaf) o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynau. Mae TAW ar fewnbynau na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynau o'r fath a'u hychwanegu at y gost o asedau gosodedig diriaethol fel sy'n briodol, lle mae'r mewnbynau eu hunain yn asedau gosodedig diriaethol yn eu natur.

Darpariaethau a rhwymedigaethau amodol

Cydnabyddir darpariaethau pan mae gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a gellir amcangyfrif yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

Lle mae effaith gwerth amser arian yn berthnasol, caiff y swm a ddisgwylir yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ei gydnabod ar werth presennol gan ddefnyddio cyfradd disgowntio cyn-treth. Caiff dad-ddirwyn y disgownt ei gydnabod fel cost cyllid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn ariannol mae'n codi.

Bydd rhwymedigaeth amodol sy'n codi o ddigwyddiad blaenorol sy'n rhoi rhwymedigaeth posibl i'r Coleg y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau dim ond drwy ddigwyddiad neu ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt dan reolaeth lwyr y Coleg. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi dan amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond nid yw'n debygol y bydd all-lif o adnoddau yn ofynnol neu na ellir mesur yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

Nid yw rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y fantolen ond cânt eu datgan yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

Beirniadaethau o ran cymhwyso polisiâu cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae rheolwyr wedi gwneud y beirniadaethau canlynol:

- Pennu a yw prydles y mae'r Coleg yn ymgymryd â nhw naill ai fel prydleswr neu ddeiliad prydles yn brydles gweithredu neu gyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad o ba un ai a yw risgiau a gwobrau perchnogaeth wedi'u trosglwyddo o'r prydleswr i'r deiliad prydles ar sail prydles wrth brydles.
- Pennu a oes unrhyw ddangosyddion o ddiffyg yn asedau diriaethol y grŵp. Mae ffactorau a gymerir i ystyriaeth wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys dichonoldeb economaidd a pherfformiad ariannol disgwyledig yr ased yn y dyfodol lle mae'n gydran uned cynhyrchu arian mwy, dichonoldeb a pherfformiad disgwyledig yr uned honno yn y dyfodol.

Mae paratoi datganiadau ariannol yn unol â FRS 102 yn gofyn defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu allweddol penodol. Mae hefyd yn gofyn i reolwyr ddefnyddio eu barn yn cymhwyso polisiau cyfrifyddu'r Coleg.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- *Asedau gosodedig diriaethol*

Mae asedau gosodedig diriaethol yn cael eu dibrisio dros eu bywydau defnyddiol gan gymryd i ystyriaeth gwerth gweddilliol, pryd bynnag sy'n briodol. Caiff bywydau gwirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol eu hasesu bob blwyddyn a gallant amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ail-asesu bywydau asedau, caiff ffactorau megis arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw eu cymryd i ystyriaeth. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis amodau'r farchnad yn y dyfodol, bywyd sy'n weddill yr ased a gwerthoedd gwaredu arfaethedig.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth cyfredol rhwymedigaeth budd diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu pennu ar sail actwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn pennu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio. Bydd unrhyw newid yn y rhagdybiaethau hyn, sy'n cael eu datgelu yn nodyn 22, yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth pensiwn. Yn ogystal, mae dull treigl sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actwaraidd llawn diweddaraf a wnaed ar 31 Mawrth 2016 wedi'i ddefnyddio gan yr actwari i brisio'r rhwymedigaeth pensiwn ar 31 Gorffennaf 2020. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigyrau sy'n deillio o'r dull treigl a phrisiad actwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth pensiwn.

2. GRANTIAU GAN LYWODRAETH CYMRU

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Grantiau Rheolaidd				
Grant Rheolaidd LLC	45,977	45,977	43,103	43,103
Dysgu Seiliedig ar Waith	1,150	1,150	1,369	1,369
 Datganiad Grantiau Cyfalaf Gohiriedig LLC -	129	129	129	129
Datganiad Grantiau Cyfalaf Gohiriedig LLC - cyfarpar	436	436	387	387
Grantiau penodol eraill	5,509	5,509	3,892	3,892
Cyfanswm	53,201	53,201	48,880	48,880

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, cafodd y Coleg £0.9m (2018/19: £0.8m) gan Lywodraeth Cymru wedi'i glustnodi fel Cronfeydd Cefnogi Dysgwyr. Cafodd y cronfeydd hyn eu gweinyddu yn unol â'r amodau a thelerau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi'u cofnodi yng nghyfrif incwm a gwariant y Coleg. Dangosir manylion y grant hwn yn Nodyn 24.

3. FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Ffioedd - Addysg Bellach	244	244	184	184
Ffioedd - Addysg Uwch	3,690	3,690	3,854	3,854
Cyfanswm ffioedd dysgu	3,934	03,934	4,038	4,038
Contractau AALL	263	263	353	353
Cyfanswm	4,197	4,197	4,391	4,391

4. GRANTIAU A CHONTRACTAU ERAILL

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Grantiau Ewropeaidd	2,168	2,168	1,722	1,722
Cyfanswm	2,168	2,168	1,722	1,722

5. INCWM ARALL

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Arlwyaeth	22	22	30	30
Gweithgareddau eraill sy'n cynhyrchu incwm Datganiad grantiau cyfalaf gohiriedig eraill - heb fod yn LIC	897	897	1,855	950
	1,202	1,202	1,457	1,457
Gweithgareddau ffermio	18	18	21	21
Incwm Rhent	11	11	46	46
Incwm amrywiol	1,253	1,253	897	897
Cyfanswm	3,403	3,403	4,306	3,401

6. INCWM BUDDSODDIAD

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Llog banc yn dderbyniadwy	52	52	68	67
Cyfanswm	52	52	52	67

7. COSTAU STAFF

Nifer o staff

Y nifer cyfartalog o unigolion (gan gynnwys staff rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn, wedi'u disgrifio'n staff cyfwerth ag amser llawn oedd:

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Staff addysgu	479	479	444	444
Staff nad ydynt yn addysgu	468	468	490	485
Cyfanswm	947	947	934	929

Costau staff ar gyfer yr unigolion uchod

Cyflogau a thaliadau	29,881	29,881	30,152	29,213
Cost nawdd cymdeithasol	2,740	2,740	2,738	2,658
Costau pensiwn eraill (gan gynnwys pensiynau uwch, addasiad FRS 102)	9,171	9,171	7,362	7,222
Symudiad yn nhâl gwyliau	504	504	(44)	(28)
	42,296	42,296	40,208	39,065
Costau diswyddo staff eithriadol	63	63	1,194	1,036
	42,359	42,359	41,402	40,101

Costau cyflogaeth yn ôl math o gyflogai	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Adrannau addysgu	22,309	22,309	21,982	21,538
Gwasanaethau cefnogi addysgu	5,377	5,377	5,332	5,332
Gwasanaethau gweinyddol a chanolog	10,727	10,727	10,349	9,646
Safleoedd	499	499	487	487
Hyfforddi a datblygu	35	35	42	42

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Costau diswyddo staff eithriadol	63	63	1,194	1,036
Symudiad darpariaeth pensiwn uwch	272	272	132	132
Treth prentisiaeth	131	131	130	129
FRS102 tâl uwchben cyfraniadau	2,442	2,442	1,798	1,787
Symudiad croniad tâl gwyliau	<u>504</u>	<u>504</u>	<u>(44)</u>	<u>(28)</u>
Cyfanswm	<u>42,359</u>	<u>42,359</u>	<u>41,402</u>	<u>40,101</u>

Staff rheoli allweddol

Staff rheoli allweddol yw'r unigolion hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg a chânt eu cynrychioli gan Uwch Dîm Rheoli'r Coleg sy'n cynnwys y Pennaeth, Is-benaethiaid a Chyfarwyddwyr. Mae costau staff yn cynnwys iawndal a delir i staff rheoli allweddol am golled swydd.

Enillion staff rheoli allweddol, y Swyddog Atebol a staff uwch eraill.

O'r tri aelod ar ddeg yn yr Uwch Dîm Rheoli yn 2020, roedd deuddeg ar gyflog o fwy na £60k ac un yn is ar gyflog is. Gadawodd un aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ei swydd yn 2019/20 ac mae'r swydd yn wag ar hyn o bryd gyda Chyfarwyddwr Dros Dro yn cyflenwi (y Rheolwr AD). Sefydlwyd Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Allanol ychwanegol ar 1 Awst 2019.

Y nifer o staff rheoli allweddol a staff eraill a gafodd enillion blyneddol, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion mewn da oedd:

	Grŵp 2020 Rhif.	Coleg 2020 Rhif.	Grŵp 2019 Rhif.	Coleg 2019 Rhif.
Y nifer o staff rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifol oedd:	12	12	12	12
Cyfanswm	12	12	12	12
Staff rheoli allweddol	Grŵp 2020 Rhif.	Coleg 2020 Rhif.	Grŵp 2019 Rhif.	Coleg 2019 Rhif.
£55,001 i £60,000 y flwyddyn	1	1	4	4
£60,001 i £65,000 y flwyddyn	3	3	-	-
£65,001 i £70,000 y flwyddyn	2	2	5	5
£70,001 i £75,000 y flwyddyn	3	3	-	-
£100,001 i £105,000 y flwyddyn	2	2	2	2
£145,001 i £150,000 y flwyddyn	-	-	1	1
£150,001 i £155,000 y flwyddyn	1	1	-	-
Cyfanswm	12	12	12	12
Gwneir iawndal staff rheoli allweddol fel a ganlyn:	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Cyflogau	952	952	1,097	1,046
Cyfraniadau pensiwn	223	223	217	212
Cyfanswm yr Enillion	1,175	1,175	1,314	1,258

Mae'r iawndal ar y dudalen flaenorol yn cynnwys symiau yn daladwy i'r Pennaeth, sef y swyddog atebol a'r aelod o staff a delir fwyaf. Mae ei dâl a'i gydnabyddiaeth ariannol fel a ganlyn:

Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
------	-------	------	-------

	2020	2020	2019	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	153	153	149	149
Cyfraniadau pensiwn	37	37	39	39
Cyfanswm yr Enillion	190	190	188	188

lawndal am golled swydd a delir i gyn-staff rheoli allweddol.

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Cytundebol	21	21	22	6
Anghytundebol	19	19	105	79
Cyfanswm	40	40	127	85

Cymeradwywyd y costau uchel gan Gadeirydd a Is-gadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr.

Ni chafodd aelodau'r Gorfforaeth, heblaw am y Swyddog Atebol a'r aelodau o staff, unrhyw daliad gan y sefydliad ac eithrio ad-dalu unrhyw dreuliau teithio a chynhaliaeth a achoswyd wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Perthynas tâl y Pennaeth/Prif Weithredwr a chydabyddiaeth ariannol a fynegir fel lluosrif

	2020 £'000	2019 £'000
Cyflog sylfaenol y Pennaeth fel lluosrif o ganolrif pob staff	5.06	4.44
Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth ar Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif pob staff.	6.28	5.61

Mae'r ffigyrau 2020 yn seiliedig ar yr adroddiad Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau ar gyfer mis Mawrth 2020 ac nid ydynt yn cynnwys staff asiantaeth. Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg contractau allanol ar gyfer gwasanaethau glanhau ac arlwyfaeth y Coleg, felly nid yw'r costau staffio hyn wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad ychwaith.

8. TREULIAU GWEITHREDU ERAILL

Grŵp Coleg Grŵp Coleg

	2020 £'000	2020 £'000	2019 £'000	2019 £'000
Costau adran addysgu	795	795	814	793
Gwasanaethau cymorth eraill	115	115	117	117
Gwasanaethau gweinyddol a chanolog	2,639	2,639	2,510	2,443
Addysg Gyffredinol	1,979	1,979	2,004	1,941
Costau eiddo a chynnal a chadw	5,419	5,419	4,616	4,569
Darpariaeth masnachfrait	1,070	1,070	972	972
Taliad i Bartneriaid - Cronfa Ewropeaidd	408	408	781	781
Taliadau i Bartneriaid - SPP	383	383	1,662	1,662
Gweithrediadau Arlwyo	135	135	78	74
Ystadau Brynbuga	17	17	17	17
Trafnidiaeth	930	930	918	896
Amhariad ar fenthyciad Coleg Gwent Training Ltd		122	-	1,042
Cydnabyddiaeth ariannol archwilwyr				
• Archwiliad o'r Datganiad Ariannol	40	40	39	34
• Archwiliad Mewnol	30	30	36	36
• Gwasanaethau eraill a ddarperir gan archwilwyr y datganiad ariannol	6	6	27	21
Colledion cael gwared ar asedau heb fod yn gyfredol	-	-	-	-
Llogi asedau dan brydlesi gweithredu - asedau nad ydyn yn eiddo	206	206	150	150
	14,172	14,294	14,741	15,548

9. LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
------	-------	------	-------

	2020	2020	2019	2019
	£'000	£'000	£'000	£'000
Benthyciadau banc, gorddrafftiau a benthyciadau eraill	147	147	159	159
Costau cyllid pensiwn (nodyn 22)	865	865	826	824
	<u>1,012</u>	<u>1,012</u>	<u>985</u>	<u>983</u>

10. ASEDAU GOSODEDIG DIRIAETHOL

Cafodd tir ac adeiladau eu prisio yn 1993 gan Brisiwr Dosbarth Casnewydd ar sail Gwerth Marchnad Agored ar gyfer y Defnydd Cyfredol, neu yn achos adeiladau arbenigol, ar sail y Gost Amnewid Ddibrisiedig, ar gyfer corffori yn y fantolen. Roedd y prisiad, fel yr oedd ar 1 Ebrill 1993, yn £29,885,000 yr oedd £23,212,000 ohono yn gysylltiedig ag adeiladau a £6,673,000 yn gysylltiedig â thir.

Gan y cafodd y tir a'r adeiladau a etifeddwyd eu trosglwyddo o'r Awdurdod Addysg Lleol i'r Coleg dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 am £0, pe na byddent wedi'u prisio yna byddent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gost hanesyddol o £0. Petai'r asedau hyn yn cael eu gwerthu, byddai'n rhaid i'r Coleg naill ai rhoi'r elw o'r gwerthiant i Lywodraeth Cymru neu ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd tir ac adeiladau a gafodd eu rhoi'n rhodd eu prisio ar 21 Gorffennaf 2012 gan Cooke & Arkwright ac maent wedi'u dibrisio yn ystod y flwyddyn yn unol â pholisi dibrisio'r Coleg.

Mae asedau sydd â gwerth net ar y llyfrau o £6,335k (2018/19: £6,350k) wedi'u hariannu â grantiau Llywodraeth Cymru, ac mae asedau sydd â gwerth net ar y llyfrau o £731k (2018/19: £1,298k) wedi'u hariannu gan grantiau eraill. Petai'r Coleg yn cael gwared ar yr asedau hyn, byddai'r elw yn dychwelyd at y sefydliad perthnasol.

Mae dibrisiad cyflymedig o £1,059k (2018/19 £1,598k) wedi'i gymhwyso mewn perthynas â safle campws Pont-y-pŵl, ac mae grant cyfalaf gohiriedig cyfatebol o £437k (2018/19 £678k) wedi'i ddatgan hefyd. Bydd dibrisiad cyflymedig a datganiadau o grantiau cyfalaf £534k a £241k yn y drefn honno yn cael eu gwneud yn y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Gorffennaf 2021.

Tir	Adeiladau	Gosodiadau a Ffitiadau	Asedau wrth adeiladu	Cyfanswm
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000

Cost neu brisiad

Ar 1 Awst 2019	6,307	79,697	21,170	2,203	109,377
Ychwanegiadau	-	-	-	4,247	4,247
Ailddosbarthiadau	-	51	2,885	(2,936)	-
Gwarediadau	-	-	-	-	-

<i>Ar 31 Gorffennaf 2020</i>	6,307	79,748	24,055	3,514	113,624
------------------------------	--------------	---------------	---------------	--------------	----------------

Dibrisiad

Ar 1 Awst 2019	356	37,446	10,37	-	48,179
Cosaut ar gyfer y flwyddyn	3	1,345	2,622	-	3,970
Dibrisiad cyflymedig	-	986	73	-	1,059
Dileadau mewn perthynas â	-	-	-	-	-

<i>Ar 31 Gorffennaf 2020</i>	359	39,777	13,072	-	53,208
------------------------------	------------	---------------	---------------	----------	---------------

<i>Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31</i>	5,948	39,971	10,983	3,515	60,416
--------------------------------------	--------------	---------------	---------------	--------------	---------------

<i>Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31</i>	5,951	42,251	10,793	2,203	61,198
--------------------------------------	--------------	---------------	---------------	--------------	---------------

11. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL

Mae Coleg Gwent Training Ltd wedi'i ddiddymu a disgwylir ei dynnu oddi ar gofrestr y Tŷ'r Cwmnïau cyn mis Ebrill 2021. Mae Coleg Gwent Enterprises Ltd a Coleg Gwent Catering Ltd yn gwmnïau segur. Y cyfeiriad cofrestredig ar gyfer pob is-gwmni yw: - Y Rhadyr, Brynbuga, Sir Fynwy, NP15 1XJ.

12. ASEDAU GWADDOL

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Balansau Arian Parod	64	64	64	64
Cyfanswm	64	64	64	64

13. STOCIAU

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Stoc y ffreutur a'r bar	3	3	2	2

Cyfanswm

3322**14. MASNACH A DERBYNIADWYON ERAILL**

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn				
Derbyniadwyon masnach	441	441	465	421
Rhagdaliadau ac incwm cronol	2,644	2,644	1,333	1,333
Cyfanswm	<u>3,085</u>	<u>3,085</u>	<u>1,798</u>	<u>1,754</u>

15. CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY CYN PEN BLWYDDYN

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn				
Benthyciadau banc (cyfeiriwch at nodyn 17)	410	410	409	409
Taladwyon masnach	1,095	1,095	360	350
Croniadau ac incwm gohiriedig	4,154	4,154	4,564	4,493
Grantiau llywodraeth a gafwyd ymlaen llaw	1,577	1,577	2,006	2,006
Grantiau ymlaen llaw	<u>1,575</u>	<u>1,575</u>	<u>996</u>	<u>996</u>
Cyfanswm	<u>8,811</u>	<u>8,811</u>	<u>8,335</u>	<u>8,254</u>

16. CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Benthyciadau banc (cyfeiriwch at nodyn 17)	3,635	3,635	4,045	4,045
Incwm - gohiriedig - grantiau llywodraeth	32,304	32,304	33,092	33,092

Cyfanswm	<u>35,939</u>	<u>35,939</u>	<u>37,137</u>	<u>37,137</u>
----------	---------------	---------------	---------------	---------------

17. AEDDFEDRWYDD DYLED - BENTHYCIADAU BANC A GORDDRAFFTIAU

Mae benthyciadau banc yn ad-daladwy fel a ganlyn:

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Benthyciadau yn daladwy cyn pen blwyddyn	409	409	409	409
Rhwng un a dwy flynedd	427	427	410	410
Rhwng dwy a phum mlynedd	1,014	1,014	1,120	1,120
Mewn pum mlynedd neu fwy	<u>2,194</u>	<u>2,194</u>	<u>2,515</u>	<u>2,515</u>
Cyfanswm	<u>4,044</u>	<u>4,044</u>	<u>4,454</u>	<u>4,454</u>

Mae gan y Coleg bedwar cyfleuster wedi'u tynnu i lawr fel a ganlyn:

Banc	Cyfanswm y Benthyciad £k	Diogelwch	Cyfradd Llog	Amserlen daliadau
National Westminster	1,125	Llyfrgell Casnewydd	0.8% yn uwch na LIBOR	96 rhandaliad chwarterol yn dod i ben ym mis Mai 2028
National Westminster	1,800	Bloc Celf Casnewydd	0.8% yn uwch na LIBOR	96 rhandaliad chwarterol yn dod i ben mis Awst 2028
National Westminster	1,050	Bloc Gwyddoniaeth Casnewydd	0.8% yn uwch na LIBOR	96 rhandaliad chwarterol yn dod i ben mis Gorffennaf 2022
Lloyds TSB	2,900	Ansicr	5.584%	92 rhandaliad chwarterol

18. DARPARIAETHAU ERAILL

	Grŵp a Choleg			
	TAW Darpariaeth	Manwl Pensiwn Darpariaeth	Tâl gwyliau Darpariaeth	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ar 1 Awst 2019	100	1,818	398	2,316
Wedi'i ddatgan/defnyddio	(100)	(150)	(398)	(648)
Codi i gyfrif SOCI yn y cyfnod	-	273	902	1,175
Cyfanswm	-	1,941	902	2,843

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn ymwneud â chost staff sydd eisoes wedi gadael cyflogaeth y Coleg a'r ymrwymadau ar gyfer costau ad-drefnu na all y Coleg ei dynnu'n rhesymol ohono ar ddyddiad y fantolen.

Y prif ragdybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw;

	2020	2019
Chwyddiant Pris	2.2%	2.2%
Cyfradd Gostyngiad	1.3%	2.0%

Mae'r ddarpariaeth tâl gwyliau yn ymwneud â buddion cyflogeion tymor byr a roddir i'r holl gyflogeion yn y flwyddyn ariannol ond sy'n dal i fod yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r buddion hynny yn ymwneud ag absenoldeb blynyddol sy'n weddill ar 31 Gorffennaf 2020.

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Darpariaeth tâl gwyliau	902	902	398	398
Cyfanswm	902	902	398	398

19. ARIAN A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

	Ar 1 Awst 2019 £'000	Llifoedd arian £'000	Ar 31 Gorffennaf 2020 £'000
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	11,797	3,065	14,862
Cyfanswm	11,797	3,065	14,862

20. YMRWYMIADAU CYFALAF AC ERAILL

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Ymrwymadau wedi'u contractio ar 31 Gorffennaf 2020	1,182	1,182	2,151	2,151
Cyfanswm	1,182	1,182	2,151	2,151

21. RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y Coleg isafswm taliadau prydles dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:-

	Grŵp 2020 £'000	Coleg 2020 £'000	Grŵp 2019 £'000	Coleg 2019 £'000
Arall (heb fod yn dir ac adeiladau)				
Dim hwyrach na blwyddyn	206	206	202	202
Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	274	274	406	406
Cyfanswm	480	480	608	608

22. RHWYMEDIGAETHAU PENSIWN DIFFINIEDIG

Mae cyflogeion y Coleg yn perthyn i ddau brif gynllun pensiwn: y Cynllun Pensiwn Athrawon yng Nghymru a Lloegr (CPA) ar gyfer staff academiaidd a chysylltiedig; a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Torfaen. Mae'r ddau yn gynlluniau budd diffiniedig.

Caiff y costau pensiwn eu hasesu yn unol â chyngor gan actwariaid cymwys, annibynnol. Prisiad actwariaidd ffurfiol diweddaraf y CPA oedd mis Mawrth 2016 a'r LGPS ar 31 Mawrth 2019.

Cyfanswm Cost Pensiwn ar gyfer y flwyddyn

	2020 £'000	2019 £'000
Cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Athrawon	3,726	2,609
NEST	0	11
Cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)		
Cyfraniadau a dalwyd	2,732	2,845
Symudiad mewn croniadau/addasiadau LS	(1)	33
Tâl FRS 102	2,442	1,798
Tâl i Ddatganiad o Incwm Cynhwysfawr	8,899	7,230
Tâl Pensiwn Uwch i'r Cyfrif Incwm a Gwariant	272	132
	9,171	7,362

Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA)

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA) yn gynllun budd diffiniedig, cyfrannol, statudol, a reolir gan Reoliadau'r Cynllun Pensiwn Athrawon 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysg eraill, gan gynnwys Colegau. Mae aelodaeth yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r CPA

Mae'r CPA yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau yn cyfrannu ar sail 'talwrth fynd' - mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rheiny a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys dan drefniadau a reolir gan y Ddeddf uchod. Telir buddion ymddeol a buddion pensiwn eraill gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd.

Dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r CPA yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi cymryd mantais o'r eithriad yn FRS 102 ac wedi nodi ei gyfraniadau i'r cynllun fel petai'n gynllun budd diffiniedig.

Caiff y CPA ei brisio yn unol â'r rheoliadau dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013. Mae prisiadau yn credydu cyfrif pensiwn athrawon gyda chyfradd adennill go iawn gan gymryd yn ganiataol bod cronfeydd yn cael eu buddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu cyfradd adennill go iawn

Cynhaliwyd adolygiad actwariaidd diweddaraf y CPA fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Cyhoeddwyd adroddiad y prisiant gan yr Adran Addysg (yr Adran) ym mis Ebrill 2019. Roed y prisiad yn adrodd cyfanswm rhwymedigaethau'r cynllun (pensiynau sy'n cael eu talu ar hyn o bryd ac amcan gost buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth ar y dyddiad dan sylw o £218

biliwn, ac asedau tybiannol (amcan gyfraniadau yn y dyfodol ynghyd â'r buddsoddiadau tybiannol ar ddyddiad y prisiad) o £198 biliwn, gan roi diffyg gwasanaeth blaenorol tybiannol o £20 biliwn.

O ganlyniad i'r prisiad, gosodwyd cyfraddau newydd i gyfraniadau cyflogwr ar 23.68% o dâl pensiynadwy o fis Medi 2019 ymlaen (mewn cymhariaeth â 16.48% yn 2018/19). Mae'r Adran Addysg wedi cytuno i dalu grant cyfraniad cyflogwr at bensiwn athrawon i dalu'r costau ychwanegol yn ystod blwyddyn academiaidd 2019/20.

Gallwch ddod o hyd i gopi llawn o adroddiad y prisiant a'r ddogfennaeth ategol ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon

Cyfanswm y costau pensiwn a dalwyd i'r CPA yn ystod y flwyddyn oedd £3,726k (2019 £2,609k)

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r LGPS yn gynllun budd diffiniedig, gyda'r asedau yn cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân dan weinyddiaeth Awdurdod Unedol Torfaen. Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 oedd £3,456k, ac o hynny roedd cyfraniad gan gyflogwyr yn cyfrif £2,723k a chyfraniadau gan gyfloggeion yn cyfrif £733k. Y cyfraddau cyfrannu cytunedig ar gyfer blynnyddoedd i ddod yw 26.4% i gyflogwyr ac maent yn amrywio rhwng 5.5% a 12.5% i gyfloggeion, yn dibynnu ar gyflog.

Prif Ragdybiaethau Actwaraidd

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar brisiad actwaraidd llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2016, wedi'i ddiweddarau i 31 Gorffennaf 2020 gan actwari annibynnol, cymwys.

	Ar 31 Gorffennaf 2020 %	Ar 31 Gorffennaf 2019 %
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	2.5	2.8
Cyfradd gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun	1.4	2.1
Rhagdybiaeth chwyddiant	2.2	2.4
Cyfnewid Pensiynau yn gyfandaliadau	50.0	50.0

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth cyfredol* yn cynnwys digon o le am welliannau yng nghyfradd marwolaeth y dyfodol. Y disgwyliad oed tybiedig i rywun sy'n ymddeol yn 65 oed ydy:

	2020	2019
Ymddeol heddiw		
Gwrywod	20.6	20.6
Benywod	22.9	23.0
Ymddeol mewn 20 mlynedd		
Gwrywod	21.6	21.9

Benywod 24.6 24.7
**Dylid nodi bod y rhagdybiaethau marwolaeth a nodwyd uchod yn cynrychioli'r cyfartaledd ar gyfer y cynllun Torfaen*
 Mae'r swm sydd wedi'i gynnwys ar y fantolen mewn perthynas â'r cynllun pensiwn buddion wedi eu diffinio fel a ganlyn:

	2020	2019
	£'000	£'000
Gwerth teg o asedau'r cynllun	71,739	71,981
Gwerth cyfredol atebolrwydd y cynllun	(128,721)	(112,556)
Pensiynau Net (atebolrwydd)	(56,982)	(40,575)

Mae'r symiau wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2020	2019
	£'000	£'000
Symiau wedi'u cynnwys yng nghostau staff		
Cost gyfredol y gwasanaeth	5,444	4,215
(Credyd)/cost gwasanaeth blaenorol	(209)	378
Cyfanswm	5,235	4,593
 Symiau wedi'u cynnwys yn y costau cyllid	 2020	 2019
	£'000	£'000
Cost llog net	(865)	(826)
Cyfanswm	(865)	(826)

Mae'r symiau wedi'u cydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr mewn perthynas â'r cynllun fel a ganlyn:

	2020 £'000	2019 £'000
Swm wedi'i Gynabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall		
Adenillion ar asedau cynllun pensiwn	3,305	1,951
Adenillion profiad yn codi o rhwymedigaethau budd diffiniedig	(3,831)	(11)
Newid mewn rhagdybiaethau demograffig	12,844	5,872
Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	782	(17,332)
Swm wedi'i Gynabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall	13,100	(9,520)
Symudiad mewn atebolrwydd diffiniedig net yn ystod y flwyddyn		
Atebolrwydd budd diffiniedig net yn y cynllun ar 1 Awst	(40,367)	(28,431)
Symudiad yn y flwyddyn;		
Cost gyfredol y gwasanaeth	(5,444)	(4,215)
Costau'r gwasanaeth blaenorol	209	378
Cyfraniadau gan gyflogwyr	2,793	2,795
Effaith Cyfuno Busnes	(194)	-
Llog net ar yr (atebolrwydd)/ased diffiniedig	(879)	(826)
Enillion neu golled actiwaraid	(13,100)	(9,520)
Rhwymedigaeth budd diffiniedig net ar 31 Gorffennaf	(56,982)	(40,575)
Cysoni Asedau a Rhwymedigaethau		
Newidiadau yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaethau budd diffiniedig		
Rhwymedigaethau budd diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	(111,814)	(94,805)
Cost gyfredol y gwasanaeth	(5,444)	(4,215)
Cost gwasanaeth blaenorol	209	(378)
Effaith Cyfuno Busnes	(728)	-
Cost llog	(2,399)	(2,708)
Cyfraniad gan gyfranogwyr y cynllun	(733)	(693)
Buddion a dalwyd	1,983	1,714
Profiadau eraill	3,831	(11)
Newidiadau yn rhagdybiaethau demograffig	(12,844)	5,872
Newidiadau yn rhagdybiaethau ariannol	(782)	(17,332)
Rhwymedigaethau budd diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	(128,721)	(112,556)
Gwerth teg o asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	71,447	66,374
Llog ar asedau'r cynllun	1,520	1,882
Datganiad ar asedau'r cynllun	(3,305)	1,951
Cyfraniad gan gyflogwr	2,793	2,795
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	733	693
Effaith Cyfuno Busnes	534	-
Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd	(1,983)	(1,714)
Gwerth teg o asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	71,739	71,981

Mae'r cyfrifon hyn yn dangos credyd gwasanaeth blaenorol o £209k mewn perthynas â beirniadaeth McCloud/Sergeant a oedd yn dweud bod y diogelwch trawsnewidiol i rai aelodau o gynlluniau'r gwasanaethau cyhoeddus a weithredwyd pan gawsant eu diwygio yn gwahaniaethu ar sail oedran. Mae'r ddarpariaeth ychydig yn is na 2% o gyfanswm rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2019. Mae'r cyfrifiad o addasu i gostau gwasanaeth blaenorol, £7 biliwn, sy'n codi o ganlyniad i ddyfarniad y Llys Apêl yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau allweddol, gan gynnwys:

- ffurf yr unioni a fabwysiadwyd
- sut fydd yr unioni yn cael ei roi ar waith
- pa aelodau fydd yn cael eu heffeithio gan yr unioni
- y rhagdybiaethau ennill
- y rhagdybiaethau codi arian

Mae'r rhagdybiaethau ariannol a demograffig eraill a fabwysiadwyd i gyfrifo'r cost gwasanaeth blaenorol yr un fath â'r rheiny a ddefnyddiwyd i gyfrifo rhwymedigaeth gyffredinol y cynllun. Byddai disgwyl i fabwysiadu rhagdybiaethau gwahanol neu wneud addasiadau eraill i adlewyrchu'r newidiadau ymddygiadol sy'n deillio o'r dyfarniad, newid y gost gwasanaeth blaenorol datganedig. Yn yr un modd, disgwylir creu costau uwch drwy ganiatáu am amrywiaethau yng ngwasanaeth aelodau unigol neu ddilyniant cyflog yn y dyfodol.

Mae'r gost gwasanaeth blaenorol yn arbennig o sensitif i'r gwahaniaeth rhwng twf cyflog cyffredinol hirdymor tybiedig â'r CPI. Petai'r rhagdybiaethau twf cyflog hirdymor yn 0.5% y flwyddyn yn is, yna byddai disgwyl i'r gost gwasanaeth blaenorol a ddatgelir yma leihau o 50% ac i'r gwrthwyneb, byddai cynnydd o 0.5% y flwyddyn yn cynyddu'r amcan gost o 65%.

23. TRAFODION PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

O ystyried natur gweithrediadau'r Coleg a chyfansoddiad aelodau'r bwrdd llywodraethwyr sy'n cael eu tynnu o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat lleol, mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau pan all aelod y bwrdd llywodraethwyr fod â budd ynddynt. Mae pob trafodiad sy'n ymwneud â sefydliadau o'r fath yn cael eu cynnal yn unol â rheoliadau ariannol y Coleg a'r gweithdrefnau caffael arferol.

Cyfanswm y treuliau a dalwyd i'r Llywodraethwyr neu ar eu rhan yn ystod y flwyddyn oedd £0. (2019 £1k) Mae hyn yn cynrychioli treuliau teithio a chynhaliaeth a threuliau allan o

boced eraill a achoswyd wrth fynychu cyfarfodydd y Llywodraethwyr a digwyddiadau elusennol yn eu capasiti swyddogol.

Nid oes unrhyw lywodraethwr wedi cael unrhyw gydnabyddiaeth ariannol nac wedi hawlio taliadau gan y Coleg yn ystod y flwyddyn (£0 yn 2019)

24. SYMIAU A DDOSTELIR FEL ASIANT

	Coleg 2020 £'000	Coleg 2019 £'000
Balans a ddygwyd ymlaen	6	26
Grantiau gan gyrff ariannu - cymorth dewisol i ddysgwyr	872	757
Llog a enillwyd	2	2
	880	785
Rhannwyd i fyfyrwyr	(860)	(756)
Costau gweinyddol	(10)	(23)
Balans ar 31 Gorffennaf, wedi'i gynnwys yn y credydwyd	10	6

Mae grantiau gan gyrff ariannu ar gael i fyfyrwyr yn unig. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant talu yn unig. Dan yr amgylchiadau hyn, nid yw grantiau a threuliau cysylltiedig yn cael eu cynnwys yn y Datganiad ar Incwm Cynhwysfawr.